

ECO'R WYDDFA

Rhif 239

TACHWEDD 1997

Pris 30c

Welsh Not, Radio Cymru

(Rydym yn falch o roi lle amlwg i'r llythyr hwn a anfonwyd atom gan Gylch yr Iaith — Golygyddion)

Mewn cyfarfod arbennig ar Faes Eisteddfod y Bala eleni, pasiwyd cynnig, gyda mwyafrif llethol, yn galw am **wasanaeth Cymraeg** ar Radio Cymru yn hytrach na'r **gwasanaeth Cymraeg-Saesneg** presennol. Roedd y bedair pleidlais yn erbyn yn perthyn i bobl oedd â swyddi ar y cyfryngau. Roedd y gwrandawyr i gyd o blaid.

Ymysg y mudiadau a'r sefydliadau sy'n cefnogi'r cynnig mae Merched y Wawr, Y Faner Newydd, Cymdeithas yr Iaith, Mudiad Cefn a Beirdd y Talwrn.

Cysylltir yn awr â chymdeithasau, mudiadau, enwadau, papurau bro, cwmnïau ac unigolion drwy Gymru gan ofyn iddynt drafod y cynnig ac ymateb iddo.

Ers ail-lansio'r gwasanaeth ddwy flynedd yn ôl mae'r golygydd, Aled Glynne, wedi cyfaddef fod Radio Cymru wedi chwarae gormod o recordiau Saesneg (*Yr Herald*, 7 Awst 1997); mae wedi cyfaddef fod jingyls Saesneg wedi rhoi sŵn Saesneg i rai rhaglenni; mae wedi cyfaddef nad oes llawer o ddiben mewn defnyddio Saesneg wrth adolygu'r papurau; mae wedi cyfaddef bod enghreifftiau diangen o ddyfyniadau Saesneg wedi eu darlledu ar rai rhaglenni (llythyr at y beridd, Medi 1996). Eto, wrth osod canllawiau iaith i'r gwasanaeth, mae'n mynnu **na cheir gwasanaeth Cymraeg ond ar yr amod ei fod yn cynnwys Saesneg**.

Roedd Radio Cymru yn arfer bod yn **wasanaeth cyflawn yn y Gymraeg**; bellach mae'n wasanaeth sy'n adlewyrchu **bod y Gymraeg yn anghyflawn** ac yn sicr dydi o ddim yn destun unrhyw ddathliad pan ddaw Ionawr 1998.

Yn ôl adroddiad arbennig o'r BBC yn Llundain (cyhoeddwyd 1996), mae'r gorfforaeth yn addo dau wasanaeth i'r gwrandawyr yng Nghymru: **BBC RADIO WALES offers a national radio service for Wales, in English, for 18 hours a day.** **BBC RADIO CYMRU**

broadcasts throughout Wales in Welsh for 18 hours a day.

Dyna'r addewid — **IN WELSH** — yn y Gymraeg. Nid yn y Gymraeg-Saesneg y mae Aled Glynne eisoes yn cydnabod y methwyd ei reoli. **Gwasanaeth cyflawn yn y Gymraeg yw'r addewid o Lundain i wrandawyr Radio Cymru.**

Eto, ar faes y Brifwyl yn y Bala, pleidleisiodd **Geraint Talfan Davies**, Pennaeth y BBC yng Nghymru, a **Marian Wyn Jones**, Pennaeth y BBC yng Ngogledd Cymru, yn erbyn yr egwyddor honno.

Mae'r **GWEISION CYFLOG YN CAMREOLI'R GWASANETH** a daeth yn bryd i **LAIS Y GWRANDAWYR** gael ei glywed. Y tro hwn, bydd y llais yn **lluosog** ac yn **unol**.

Os ydych yn aelod o fudiad neu sefydliad gofynnir i chwi drefnu i'r cynnig gael ei drafod ac wedyn i **sicrhau fod eich penderfyniad yn cael ei gyfleu i:** **Myrddin ap Dafydd**


Cadeirydd Cylch yr Iaith
Blwch Post Rhif 11,
Llandysul, SA44 4YP.

Ysgol Brynrefail — Eisteddfod 1997



Enillwyd prif wobrau llenyddol Eisteddfod Ysgol Brynrefail a gynhaliwyd ddydd Iau, Hydref 16, gan ddau o Fethel, Bethan Williams o dŷ Eilian enillodd y Gadair; ac Owain Siôn Williams o dŷ Eryri a enillodd Tlws y Llenor Ifanc.

Ysgol Brynrefail 1918-39 — 'Y Cynhaeaf'



Mae'n siŵr eich bod yn cofio am y wybodaeth a gyhoeddwyd yn yr *Eco* beth amser yn ôl am yr ymchwil gan Dr H. G. Williams a T. M. Bassett o Brifysgol Bangor i hanes disgyblion a fynychodd Ysgol Brynrefail yn y cyfnod rhwng y ddau Ryfel Byd.

Bellach mae'r gwaith wedi'i gwblhau ac ar fin ei gyhoeddi mewn llyfr. Bydd y llyfr nid yn unig yn olrhain hanes y disgyblion ond hefyd hanes eu plant a'u plant hwythau! Cafodd yr awduron lawer o gymorth gan y cyn-ddisgyblion ac eraill a fu'n

llenwi holiaduron a chyfrannu gwybodaeth o bob math. Mae'r llyfr yn sicr o greu darlun pwysig o ddylanwad un o ysgolion uwchradd newydd Cymru ar gymuned o chwarelwyr a'u teuluoedd.

Cyhoeddir y llyfr ar ran yr awduron gan Wasg Pantycelyn, Caernarfon ym mis Tachwedd, a bydd yn cael ei lansio'n swyddogol yn Ysgol Brynrefail am 7.30 o'r gloch, nos Wener, 21 Tachwedd. Bydd lluniaeth ysgafn ar gael ac mae croeso cynnes i bawb ddod yno. Yn naturiol bydd cyfle yn y cyfarfod i brynu'r llyfr — mae'n sicr o wneud anrheg Nadolig gwerth chweil. Mae'n gyfrol swmpus ac ynddi lawer o luniau. Ceir gwybodaeth hynod ddiddorol am y cyn-ddisgyblion a'r hyn a ddaeth ohonynt, a thrwy'r gyfrol cawn olwg ar y cyfoeth a'r colledion a brofodd yr ardal yn sgil yr hanes hwnnw. Astudiaeth gymdeithasegol, yn canolbwyntio ar y bobl, sydd yma yn hytrach na llyfr hanes moel. Yn hynny o beth mae'n debyg na chafwyd cyfrol debyg am unrhyw ysgol o'r blaen.

Os na ellwch fod yn bresennol bydd y llyfr ar werth mewn siopau llyfrau lleol neu fe ellir ei archebu drwy'r post drwy anfon sicr am £5.75 (yn daladwy i Dr H. G. Williams) a'i hanfon i'r Dr Williams, yn Ysgol Astudiaethau Cymued, Rhanbarth a Chyfathrebu, Yr Hen Goleg, Prifysgol Cymru, Ffordd y Coleg, Bangor LL57 2DG.

'Dan ni wedi bod yn Birmingham



Yr oedd aelodau Seindorf Arian Deiniolen yn dathlu un o'r canlyniadau gorau yn eu hanes ddydd Sadwrn, Medi 27. Cynhaliwyd rownd derfynol Pencampwriaeth Bandiau Prydain yn Birmingham a chipiodd Seindorf Deiniolen y trydydd safle. Roedd hwn yn ganlyniad ardderchog o gofio bod 126 o fandiau wedi cystadlu yn y gwahanol rowndiau rhagbrofol, a bod 18 band wedi dod i Birmingham y diwrnod hwnnw. Llongyfarchiadau mawr i'r Seindorf ar eu llwyddiant. Does dim syndod bod yr aelodau yn edrych mor falch yn y llun a dynnwyd cyn iddynt gychwyn adref y bore canlynol.

ECO'R WYDDFA

Rhif 239
TACHWEDD 1997

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Golygyddol:

JOHN PRITCHARD
CILFYNYDD, LLANBERIS
Ffôn: (01286) 872390

IWAN ROBERTS
LLEIFIOR, LLANRUG
Ffôn: (01286) 675649

Cadeirydd Pwyllgor Llywio:
ARWEL JONES
CAE EBONI, PENISARWAUN
Ffôn: (01286) 871274

E-bost: ecorwyddfa@AOL.com

GOLYGYDD CHWARAEON

Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel,
(01248) 670115

DYDDIADUR Y MIS

Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi,
Deiniolen (870394)

FFOTOGRAFFWR

Gwynhaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)

DATBLYGU LLUNIAU

Bryn Jones, Elidir, Allt Dewi,
Bangor (01248) 353337 neu 871925

TREFNYDD HYSBYSEBION

John Roberts, Bedw Gwynion,
Llanrug (675605)

TREFNYDD BWNDELU

Ann Gibbins, Lodj Plas Tirion, Pontrug
(673696)

TREFNYDD ARIANNOL

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST

Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach,
Llanrug (650200)

TREFNYDD PLYGU

Shioned Griffith (650570)

GOHEBWYR PENTREFI

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248 670726)

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-
Williams, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn
Gwna (677438)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DEINIOLEN: W. O. Williams,
6 Rhydfadog, Deiniolen (871259)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion
Roberts, Becws Eryri (870491)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn
Moelyn (675384)

NANT PERIS: Ann Cumberton,
Gwastadnant (870356)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans,
Sycharth (872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, TACHWEDD 27
Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol
NOS LUN, TACHWEDD 17
Os gwelwch yn dda

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr, (01286) 650570

RHIFYN	DYDDIAD PLYGU	BLE?	CYSYLLTU Â	RHIF FFÔN
RHAGFYR	TACHWEDD 27	CAEATHRO	Mr Clive James	677438

Llythyrâu

Annwyl Ddarllenwyr,

Os ydych yn aelod o gymdeithas neu glwb a heb benderfynu eto ar eich rhaglen gogyfer â 1998, beth am ddod fel criw am lond bol o chwerthin ac ambell gân. Byddwn fel cwmni yn cynhyrchu cyfres newydd o'r 'Jocars' yn Stiwdio Barcud, Caernarfon ar y dyddiadau canlynol: nos Wener, Mai 1; nos Sadwrn, Mai 2; nos Sul, Mai 3; nos Lun, Mai 4.

Os daw 40 neu fwy ohonoch atom fe dalwn ni am fws i'ch cludo. Ffoniwch (01492) 533148 am ragor o fanylion.

Yn gywir,

E. WILLIAMS
Cwmni'r Castell, 12 Ffordd Carlton
Bae Colwyn

Annwyl Gyfeillion Bro'r Eco,

Syndod ynte! Derbyn Eco mis Medi a darganfod fod fy ymgais ar y croesair mis Gorffennaf nid yn unig yn gywir ond wedi ennill. Mwy o syndod ddod — derbyn Eco mis Hydref ac ynddo siec am bumpunt.

Mae'n bleser gennym bob amser dderbyn yr Eco, diolch i chi oll amdano, a diolch hefyd y tro hwn am y bumpunt.

Rwyf yn cael llawer iawn o bleser o wneud y croesair bob mis ond, yn anffodus, tydi swyddfa bost Awstralia ddim gwell nac un Prydain ac felly ni fydd y papur ond yn achlysurol yn cyrraedd mewn pryd i mi ei orffen a'i anfon yn ôl cyn y diwrnod cau. Gobeithio y bydd mewn pryd y mis yma.

Nid yn unig y croesair sy'n rhoi pleser i mi. Bydd y wraig a minnau yn cael pleser mawr o ddarllen yr Eco a chadw mewn cysylltiad a'r hyn sy'n digwydd o amgylch y fro. Er mai o fro Llais Ogwan y daw hi. Edrych ymlaen i weld beth fydd gan Dafydd i'w ddweud wrth Chwilota, beth sydd ynghyd yn Siambar Selwyn (ar wahân i'r carw) a darllen ambell adroddiad gan lolo o Glwb Eryri.

Rwyf yn dychwelyd y siec a'i throir wobr yn ôl tuag at gronfa'r Eco fel arwydd o'r pleser a gawn o'i dderbyn bob mis a'i gyfraniad at gadw ein Cymraeg ni yn Awstralia yn fyw.

Gyda llaw, cefais groesair mis medi yn iawn, hyd yn oed y gair 'ystadl' a roes dipyn o drafferth i mi, ond methais a'i orffen mewn pryd i'w anfon gan ein bod wedi bod yn Melbourne gyda nifer fach o Gymry mewn cinio i ddathlu Dydd Owain Glyndŵr.

Byddwn bob amser yn ymdrechu i fynd i weld unrhyw beth Cymraeg, fel corau meibion, ac yn y blaen, sydd yn ymweld â Victoria. Ac os bydd rhywun o'r ardal ar daith yn y cyffiniau yma bydd croeso iddynt yma yn Moe unrhyw adeg.

Gyda diolch a dymuniadau gorau i chi.

Cofion,

HYWEL GRIFFITH
40 Bennett Street
Moe, Victoria 3825, Awstralia
Ffôn: (03) 5127 3026

John Lloyd Williams a Chanu Gwerin Cymru

Annwyl Olygydd,

Rwy'n ymchwilio i fywyd a gwaith y Dr John Lloyd Williams (1854-1945) a'i gyfraniad gwerthfawr i weithgareddau cynnar y byd canu gwerin yng Nghymru. Er mai darlithydd mewn llysieuog ydoedd wrth ei alwedigaeth, ymddiddorai yn fawr iawn ym myd cerddoriaeth. Ef fu'n gyfrifol am ffurfio cymdeithas 'Y Canorion' yn y coleg ym Mangor; cymdeithas ydoedd a sefydlwyd gyda'r nod o gasglu a pherfformio alawon gwerin Cymreig. Teithiodd Dr J. Lloyd Williams ledled Cymru yn darlithio a chasglu alawon traddodiadol, yn ymweld ag ysgolion a chynnal dosbarthiadau nos. Trefnodd nifer o alawon gwerin, a bu hefyd yn olygydd cylchgrawn Y Cerddor am wyth mlynedd.

Os digwydd bod gan rai o'ch darllenwyr unrhyw wybodaeth neu ddeunyddiau perthnasol, neu

unrhyw atgofion yn gysylltiedig â Dr J. Lloyd Williams a'r Gymdeithas Alawon Gwerin, byddwn yn falch iawn o glywed oddi wrthynt, ac yn gwerthfawrogi unrhyw fath o gymorth.

Diolch yn fawr iawn,

Yn gywir,

ELEN WYN JONES
Adran Cerddoriaeth
Prifysgol Cymru, Bangor LL57 2DG

Annwyl Olygydd,

Hoffwn gael y cyfle i dynnu sylw'ch darllenwyr at y Clwb Cwysi sydd i'w gynnal yng Ngwesty'r Dolbadarn, Llanberis am 7.30 o'r gloch, nos Fercher, Tachwedd 19eg. Bydd Charles Arch, cyn-bennaeth yr ATB yng Nghymru yn ŵr gwadd ar y noson. Estynnir croeso cynnes i aelodau teuluoedd amaethyddol yr ardal i dreulio noson gymdeithasol a rhannu syniadau.

Darperir lluniaeth ysgafn ar y noson a gofynnir i chwi gysylltu â Nesta Griffiths ar (01286) 830459 i roi eich enwau, os gwelwch yn dda.

Diolch yn fawr iawn,

Yn gywir,

NESTA GRIFFITHS
Cwysi, Henblas, Llanwnda,
Caernarfon

★ ANSAWDD LLUNIAU ★

Onndoes 'na luniau sâl yn yr Eco y dyddia 'ma? Mae'n goblyn o anodd nabod amball gradur!

Cofiwch na all y wasg wneud gwyrthiau! Os yw'r llun gwreiddiol — llun lliw neu ddu a gwyn — yn niwlog, tywyll ac aneglur, a'r wynebau yn fychan oherwydd pellter y camera, nid oes dim ellir ei wneud i'w gwella.

GAIR I GALL: Ewch â'r camera mor agos â phosib at y gwrthrych a cheisio cymaint o olau ag sydd bosib, yn arbennig y tu mewn i adeilad.

Y GOLYGYDDION

SPAR

**Y STORFA
LLANRUG**

(Richard a Meirwen
Williams)

Ffôn: (01286) 672790

Ar agor bob dydd
o'r wythnos at eich
gwasanaeth

Nid oes unrhyw dâl am
ddanfôn archeb i'ch cartref
yn ardal Llanrug

GORSAF BETROL

Esso BERAN

DEINIOLEN

Ffôn: (01286) 871521

Ar agor 7 a.m. — 9 p.m. bob diwrnod
Petrol • Disel • Nwy Calor • Glo
Cylchgronau • Papurau Newydd
Cardiau Penblwydd • Wyau
Nwyddau Groser • Melysion

TICEDI LOTERI AR WERTH YMA!

Annwyl Olygydd,

Yr ydym wedi darllen gyda diddordeb yn y *Snowdon Echo* am y bwriad gan drigolion Ffordd Tŷ Du a Llainwen Isaf i gael cofrestru llain o dir glas yn Llanberis yn 'llain pentref'.

Mae'r darn tir hwn sy'n ffinio â Ffordd Tŷ Du, Llainwen Isaf a Fron Goch yn eiddo preifat, ac wedi bod felly ers 1972 pan gafodd ei brynu oddi wrth un o drigolion Llanberis gan Rossisle Development Company gyda'r bwriad o'i ddatblygu yn unol â'r galw am dai yn Llanberis.

Mae Rossisle Development Company yn ymwybodol bod y tir wedi ei ddefnyddio yn ddirwysr gan y trigolion at ddibenion cymdeithasol, ac nid yw hyn wedi peri anhwylystod i'r cwmni. Fodd bynnag, y mae dau ran bychan ohono wedi eu nodi ar y cynllun fel safleoedd posibl ar gyfer tai, ac mae'r rhannau hyn yn llai na phumed ran y safle. Y rhan sydd wedi achosi peth anesmwythd i'r trigolion yw'r darn tir ar y gyffordd rhwng Ffordd Tŷ Du a Llainwen Isaf. Cyflwynwyd cais cynllunio amo a chafodd ei wrthod, ond gyda'r posibilrwydd y byddai cynllun diwygiedig yn fwy derbyniol.

Mae cyfarwyddwr Rossisle Development Company yn ymwybodol iawn o'r angen i ddiogelu'r amgylchfyd a sicrhau adnoddau hamdden. O'r herwydd, trwy ei ymgynghorydd cynllunio, gofynnodd y cwmni i Gyngor Gwynedd ac i'r trigolion, trwy'r cynghorydd lleol, drafod y defnydd o'r tir 'ac ystyried peidio datblygu'r safle penodedig a cheisio'n hytrach ystyried cynllun arall i godi tai ar ran arall o'r safle fel rhan o gynllun a fyddai'n cynnig gweddill y tir ar gyfer parcio a defnydd hamdden'.

Ni dderbyniwyd y cynnig hwn a chyflwynwyd cais diwygiedig am dai ac mae hwnnw ar hyn o bryd yn cael ei ystyried gan Gyngor Gwynedd. Fodd bynnag mae Rossisle Development Company yn dal yn barod i drafod y datblygiad gyda'r Cyngor a'r trigolion unrhyw amser.

Er mwyn sicrhau bod yr holl drigolion sydd â diddordeb yn y mater yn ymwybodol o'r cynnig hwn, gwerthfawrogwn petaech yn cynnwys y llythyr hwn yn eich papur.

Yr eiddoch yn gywir,

M. D. HEATH

ar ran Ellis: Hillman Partnership
Penseiri Siartredig
Newcastle
Staffordshire

Mae'r ymdrech i ddiogelu tir Llainwen yn parhau. Yn groes i'r hyn a ddywedir yn llythyr y penseiri mae'r Cyng. Noel Davies yn pwysleisio na fu cais ffurfiol i drafod y mater gyda'r cyngor a'r gymuned. Mae'r gymuned leol yn gwrthwynebu'r cais cynllunio i godi tai ar y rhan o'r tir sydd o fewn ffin ddatblygu'r pentref. Nid yw'n bosibl ceisio cyfaddawd trwy symud y tai i ran arall o'r safle, gan na ellir eu codi ond ar y rhan hwnnw sydd o fewn y ffin ddatblygu. Mae Cyngor Cymuned Llanberis yn gwrthwynebu'r cais cynllunio fel y bu iddo wrthwynebu pob cais blaenorol.

Bydd ymdrech y trigolion i sicrhau statws 'Llain Pentref' i'r safle yn parhau. Os llwyddir i sicrhau'r statws hwnnw ni chaniateir codi tai ar y safle hyd yn oed pe byddai caniatâd cynllunio wedi ei roi. Cyflwynir tystiolaeth fod y tir wedi ei ddefnyddio'n ddirwysr. Mae'r datblygwyr yn cydnabod y defnydd cymunedol hwnnw yn eu llythyr.

Mae'r 'Snowdon Echo' yn cyhoeddi llythyr y penseiri (gyferbyn), ac yn falch o ailddatgan y gefnogaeth a roddir i ymdrech y trigolion lleol i ddiogelu'r tir ac atal unrhyw ddatblygiad arno.

Llwyddiant Dawnswraig Broffesiynol o Gwm-y-glo

Apwyntiwyd Siân Rhiannon, merch y Cynghorydd a Mrs Brian Jones, Cefn Bwlch, Cwm-y-glo yn Gomisiynydd Symud a Dawns (*coreograffi*) i Gyngor Celfyddydau De California.

Cafodd Siân ei blas cyntaf ar ddawnsio'n gyhoeddus mewn pasiant a gynhaliwyd yn Ysgol Cwm-y-glo yn 1978 ac wedi iddi symud i Ysgol Brynrefail fe ddatblygodd ei dawn o dan gyfarwyddyd Mrs Marjorie Wroe a chyda chefnogaeth prifathro'r cyfnod, Mr Elfyn Thomas.

Graddiodd Siân o Brifysgol Caerlŷr a chafodd radd-uwch o Brifysgol Lerpwl. Enillodd Ysgoloriaeth Rotari Ryng-wladol ac fe astudiodd am radd meistr mewn dawns a symud ym Mhrifysgol Irvine, California.

Rydym yn falch o glywed fod Siân wedi datgan wrth Gyngor Celfyddydau De California ei bwriad i greu cysylltiad agos a chryf gydag artistiaid a dawns wyr rhyng-wladol ac — yn bwysicach



fyth — â dawns wyr ac artistiaid o Gymru.

Am ragor o wybodaeth gellir cysylltu â Siân yn uniongyrchol (yn California) ar 001 714 497 4942 (cofiwch, os am ffonio, fod gwahaniaeth mawr yn yr oriau!); neu â'i rhieni ar (01286) 870831.

Datblygiad arall yn Antur Waunfawr

Cytunodd cwmni First Hydro, sy'n berchnogion ac yn gyfrifol am redeg pwerdai Dinorwig a Ffestiniog, gefnogi prosiect diweddaraf Antur Waunfawr.

Rhodddwyd caniatâd cynllunio yn ddiweddar i'r Antur i adeiladu canolfan hysbysrwydd ar eu tir. Bwriedir i'r ganolfan, sef 'Y

Caban', fod ar gael fel adnodd cymunedol i unigolion a grwpiau i astudio bywyd gwyllt a llysieuol lleol ac i arddangos adnoddau pwer naturiol ar raddfa fechan.

Bydd cwmni First Hydro nid yn unig yn rhoi cefnogaeth ariannol i'r prosiect ond hefyd yn rhoi cyngor ymarferol i'r



Cyflwynwyd siec gan Mr Owen Williams o gwmni First Hydro i Mr Gwynn Davies, Cadeirydd Antur Waunfawr. (O'r chwith i'r dde): Dafydd Andrew Williams; Dewi Jones, rheolwr y parc; Anwen Fletcher; Owen Williams (First Hydro); Gwynn Davies; Michael Hughes a Huw Davies.

datblygiad. Bydd Owen Williams, peiranydd sifil y cwmni, yn rhoi arweiniad yn ôl yr angen.

Mewn datganiad dywedodd Nigel Petrie, rheolwr-gyfarwyddwr cwmni First Hydro: 'Unwaith eto rydym wrth ein boddau yn cydweithio ag Antur Waunfawr. Roedd syniad gwreiddiol y prosiect wedi ein denu. Nid yn unig mae'n arloesol, ond mae hefyd yn rhoi cyfle i ni a'n staff i fod yn rhan mewn modd ymarferol.'

COFIWCH
ANFON DEUNYDD
Y RHIFYN NESAF
O'R ECO
ERBYN
NOS LUN
TACHWEDD 17

SNOWDONIA PARC

WAUNFAWR Ffôn: 650218

- ★ Tŷ Rhydd ★ Bwyd Cartref ★
- ★ Prydau Plant ★ Ystafell Deulu ★
- ★ Cinio Dydd Sul Traddodiadol ★
- ★ Cerddoriaeth Fyw ★ Cwrw Go lawn ★

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD
CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR
Ffôn/Ffacs: 650291

Ar agor
9-7pm
9-5pm Sadwrn
Ar Gau
Sul a Mercher



Dewis eang
o Welyau a 3P/Suites.
Llenni Venetian a Llenni Roler.
5,000 llathen sgwâr o garpedi
mewn stoc — allwch chi
fforddio prynu o batrymau?

GLANHAU CARPEDI GYDA STIMVAK

CHWILOTA

GWRACHOD A GWŶR HYSBYS



Yn ystod y mis diwethaf treuliais ddiwrnod yn ardal Pendle yng ngogledd Swydd Gaerhirfryn, gan aros mewn Hostel Ieuenctid ym mhentref Slaidburn (yn cael ei ynganu 'slay-burn'). A dyna'n union oedd ystyr yr enw: Nant y Lladdfa. Yma, ac mewn pentrefi gwledig eraill o amgylch Pendle Hill roedd lluniau o wrachod ar gefn ysgubau yn gyffredin iawn. Roeddent hyd yn oed yn cael eu defnyddio ar arwyddion llwybrau cyhoeddus. Cof sydd yma am achosion o wrachyddiaeth yn dyddio'n ôl i 1612. Bu'r ardal yn enwog iawn bryd hynny oherwydd i nifer o wrachod honedig gael eu rhoi ar brawf yn ninas Lancaster.

Mae gwrachyddiaeth heddiw yn cael ei gysylltu ag addoli'r Diafol, ond nid felly yr oedd yn yr hen amser. Yn 1542 gwnaed gwrachyddiaeth a dewiniaeth yn faterion ble roedd yn bosibl cael deddfryd o farwolaeth. Credir fod hyn wedi digwydd o ganlyniad i sawl cynllwyn i geisio lladd Harri'r Wythfed, a chafodd Deddf Seneddol ei phasio i'r perwyl hwnnw, ond diddymwyd hi'n gyfan gwbl o fewn pum mlynedd. Daeth gwrachyddiaeth yn ôl ar restr troseddau yn 1563 ond nid oedd yn bosibl crogi neb onibai iddynt eu cael yn euog o achosi marwolaeth trwy wrachyddiaeth. Bu llawer o achosion yn ystod y deugain mlynedd dilynol. Roedd y rhan fwyaf o wrachod a gâi eu cyhuddo yn hen ac yn dlawd. Mae'n ymddangos mai cymdogion ychydig yn fwy cefnog a ddeuai a'r cyhuddiad yn eu herbyn a hynny, fel arfer, pan ddigwyddai rhyw anffawd iddynt.

Yn Swydd Essex yn Lloegr roedd y mwyafrif o lawer o achosion. Yno roedd Mathew Hopkins yn arwain ymgyrch i wared y sir o'i gwrachod. Cafodd yr enw *Witch Finder General*. Er hynny, ychydig iawn a gafodd eu deddfrydu i farwolaeth. Yn Essex, y sir brysura o ran achosion, cafwyd dros 500 o bobl yn euog o wrachyddiaeth o 1563 hyd

1736, ond prin 100 a ddeddfrydwyd i farwolaeth; yr olaf yn 1682. Diddymwyd y cyfreithiau ynglŷn â gwrachyddiaeth yn 1736, ond parhaodd y gred mewn gallu gwrachod.

Mor ddiweddar â 1855 roedd Elin Williams o'r Bryngwyn ar Ros y Marchlyn uwchben Deiniolen yn cael ei chyfrif yn 'wrach', a chredai ei chymdogion fod y gallu ganddi i swyno. Roedd teulu Cil Haul o ardal Waunfawr hefyd yn cael eu cyfrif yn llinach o wŷr hysbys, gyda'r gallu i ddatrys dirgelion a gwella anhwylderau ar anifeiliaid fferm, a châl David Williams, mab Rheithor Llanrug, ei gyfri yn ŵr hysbys ac arbennigwr mewn ffisigwriaeth. Yn ôl traddodiad dywedir fod ysbryd yn cyniwa'r mewn ystafell arbennig ym Mhlasterion yn dilyn ei farwolaeth.

Tybed a oes rhai o'r darllenyddwyr â mwy o wybodaeth am wrachod neu wŷr hysbys yn ein hardal? Oes yna rai yn bodoli heddiw?

MWY AM ARDAL Y BRYNGWYN A THAN-Y-COED

Mae'r atgofion am Fecws y Bryngwyn yn parhau, ond y syndod oedd darllen amdanynt yn y *Daily Post* o bob papur, a hynny yng ngholofn wythnosol David Charters ar ddydd Iau. 'Sgwn i faint o ddarllenyddwyr yr

Eco sylwodd arni? Mae'n amlwg fod y colofnydd yn arfer treulio ei wyliau yn ystod ei blentyndod yn ardal y Ceunant, ac yn mentro i lawr y gelltydd i bentref Tan-y-coed — 'a wicked metropolis dealing in sherbert, comics an lolly-ices'. Bellach, mae'r ddwy siop wedi diflannu, ond mae'n sylwi fod y 'splendid baker was still there'. Beth am fwy o hanes y sherbert a'r comics oedd ar werth yn siopau Tan-y-coed?

PEN GORFFWYSFA

Cefais alwad ffôn ddiddorol oddi wrth Idwal Williams, Cwm-y-glo, yn rhoi gwybodaeth am y llun cerdyn post o Ben Gorffwysfa. Credai fod y llun wedi'i dynnu cyn 1935. Arferai fynd i fyny i Ben Gorffwysfa i weithio bob penwythnos. Roedd y gwesty bryd hynny yn cadw tua hanner cant neu fwy o ieir — gan gadw'r ymwelwyr mewn wyau a chig. Gobeithiaf roi adroddiad llawnach am bwrpas pob un o'r adeiladau yn y llun erbyn y rhifyn nesaf o'r *Eco* — a rhywfaint o atgofion Idwal Williams hefyd am ei gyfnod yn gweithio yno.

O GWM-Y-GLO I AWSTRALIA

Yn mhapurau Gabriel Hughes yn Adran Llawysgrifau Coleg Prifysgol Gogledd Cymru, Bangor, mae copi o adroddiad papur newydd (heb ddyddiad) wedi ei ysgrifennu gan Thomas E. Roberts. Brodor ydoedd o Gwm-y-glo, ond ymfudodd i Awstralia. Mae'n amlwg iddo gartrefu yn nhalaith Queensland, mewn tref o'r enw Charter's Towers. Roedd digon o Gymry eraill yn byw yno i sefydlu achos crefyddol (anenwadol mae'n debyg). Nid yw'r Achos yn bod erbyn heddiw, ond tua dechrau'r ganrif hon, ysgrifennodd Thomas Roberts nodiadau am y capel. Teitl yr adroddiad papur newydd oedd: 'Hanes yr Achos Cymreig yn Charter's Towers, Queensland'.

Does dim gwybodaeth pellach ar gael am Thomas Roberts. Tybed oes rhywrai o ddarllenyddwyr yr *Eco* ag unrhyw gysylltiad â Queensland, neu yn adnabod digynyddion o deulu Thomas Roberts?

Y RHIWLAS A'R CYFFINIAU

Yn nhraethawd Gwilym Pritchard cyfeiria at Lidiart y Mynydd. Rywdro yn ystod y ganrif ddiwethaf daeth teulu o Foelfre, Môn yno i fyw. Richard a Margaret Roberts, eu merch a thri mab oedd y teulu. Hen longwr oedd y tad, wedi crwydro llawer yn ystod ei fywyd. Dywedir ei fod hefyd wedi meistrolï pump o ieithoedd. Dechreuodd gadw ysgol yn Lidiart Mawr, a chredir mai hon oedd yr ysgol gyntaf yn yr ardal. Chwec'h o ddisgyblion oedd yn cael mynediad, ac yn talu ceiniog yr un. Y maes llafur oedd y Beibl, *Taith y Pererin* ac *Almanac Caergybi*!

Yn fuan wedi i'r teulu hwn sefydlu yn yr ardal, adeiladwyd Beudy'r Gors, a daeth John Pritchard a'i deulu o Bant Glas, Eifionydd yno i fyw. Priododd merch Richard Roberts â mab John Pritchard, a sefydlu yn Cae Mawr. Mae rhai o ddisgynyddion y teuluoedd hyn yn parhau yn ardal y Rhiwlas heddiw (ac awdur y traethawd yn un ohonynt!).

Roedd teulu mawr — a dylanwadol — yn byw ar fferm y Castell heb fod ymhell o bentref Rhiwlas. Bu John Roberts, y tad, yn amlwg iawn ynglŷn â sefydlu crefydd yn yr ardaloedd cylchynol. Magodd un ferch a naw o feibion. Y ferch oedd Catrin, a hi oedd hen nain yr Arglwydd Snowdon (teulu Armstrong Jones, Bontnewydd). Yn ôl Gwilym Pritchard, mae disgynyddion y teulu hwn yn byw yng Nghilgwri (Wirral) heddiw, ac yn berchnogion yr Elder Dempster Shipping Company.

RHEILFFORDD LLANBERIS - CAERNARFON

Daeth cais i law yn holi sawl gwaith roedd y rheilffordd hon yn croesi Afon Seiont rhwng Llanberis a Chaernarfon. Nid yw'n anodd iawn gweithio allan yr ateb — os oes hen fap o'r ardal gennych, neu gof da am deithio ar y lein. Ond beth am her ychwanegol? Ydi'n bosibl i chi enwi pob un o'r pontydd a gariai'r lein dros yr afon: hynny ydi, os oedd enw ar bob un ohonynt?

MELINAU AFON SEIONT

Gan yr un person daeth ymholiad ynglŷn â sawl melin sydd wedi'i lleoli ar hyd glannau Afon Seiont? Mae hwn yn gais tipyn anoddach gan fod adfeilion rhai melinau wedi llwyr ddiffnannu erbyn hyn. Ond rhowch gynnig arni erbyn y rhifyn nesaf.

Anfonwch eich sylwadau neu eich ymholiadau i Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug. Ffôn: (01286) 673515.

DAFYDD OWEN

TRYDANWR

Pob math
o waith trydanol
a Larwmau Lladron

Aelod o'r



11 Rhes Faenol
LLANBERIS

Ffôn: (01286) 871680

E. W. Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: (01286) 870202 a 870272

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

'Un funud fach . . .' YR ENW SY ARNOM

Dawn go arbennig yw'r ddawn i gofio enwau pobol. Roeddwn yn siarad dros y ffôn y noson o'r blaen â ffrind oedd yn gallu cofio enwau pobl nad oedd wedi eu gweld ers ugain mlynedd a rhagor. A'r rhyfeddod i mi oedd deall nad oedd yn eu hadnabod mor dda â hynny p'run bynnag. Dim ond wedi eu cyfarfod unwaith neu ddwy yr oedd, ond gallai gofio eu henwau i'r dim. Rhaid i mi gyfaddef fy mod lawer tro wedi mynd i'r gors yn llwyr wrth geisio cofio enw y dylwn ei wybod yn iawn. Ac ambell dro, wedi hir bendroni, llwyddo i wneud camgymeriad a rhoi'r enw anghywir i ambell wyneb.

Nid cael trafferth i gofio yr oedd un hogyn bach y diwrnod o'r blaen. Roedd o newydd gychwyn dod i'r Cyfarfod Plant yn y capel, ac wedi deall ei fod yn dod yno i ddysgu am Iesu Grist. Prin chwarter awr wedi i'r cyfarfod orffen, a minnau ar fy ffordd adref, dyma glywed rhywun yn galw arnaf o ochr arall y stryd. Yr hogyn bach oedd yno yn gweiddi 'Iesu Grist' arnaf. Ond nid gweiddi'n gas nac yn ddilornus oedd o wrth gws. Roedd o'n cysylltu'r capel a'r Cyfarfod Plant efo Iesu Grist, ac wedi credu'n syml mai dyna pwy oedd y dyn fu'n ei ddysgu ychydig funudau'n gynharach. Bu raid i mi egluro nad Iesu Grist oeddwn, ond fy mod yn ceisio gweithio drosto a dweud amdano.

Profiad rhyfedd oedd cael fy nghamgymeriad am Iesu Grist ei hun, hyd yn oed o gofio mai plentyn bach a wnaethai'r camgymeriad hwnnw. Profiad rhyfedd, ond profiad gwerthfawr, gan iddo wneud i mi holi fy hunan pa mor debygol yw hi y gallai rhywun arall wneud yr un camgymeriad.

Os ydym yn Gristnogion, rydym i fod yn debyg i'r Arglwydd Iesu. Os ydym yn credu ynddo, rydym i fod i'w ddilyn. Os ydym yn ei garu rydym i fod i'w efelychu. Ond ydi hyn yn amlwg i bobl eraill? Bywyd o ymdrechu trwy ffydd i fod mor debyg â phosibl i'r Gwaredwr ei Hun yw'r bywyd Cristnogol. Y gamp yw byw'r bywyd hwnnw fel bod modd i bobl edrych arnom ni a gweld Iesu Grist ynom ni.

JOHN PRITCHARD

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491.

Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd. Ffôn: (01286) 872390

Dosbarthwr. Mae angen rhywun i ddosbarthu'r Eco ym Maes Padarn. Os gallwch ein helu cysylltwch â Gwilym Evans, Tŷ Crwn. Diolch i Ken Jones, 19 Maes Padarn am wneud y gwaith y blynyddoedd diwethaf yma. Gwerthfawrogwn waith ein holl ddosbarthwyr.

Capel Coch. Cynhaliwyd yr Ŵyl Ddiolchgarwch ddydd Sul, Hydref 19. Cafwyd cyfarfod gweddi yn y bore, oedfa'r plant yn y prynhawn ac oedfa bregethu gyda'r nos. Plant yr Ysgol Sul oedd yn cymryd rhan yn y prynhawn a phob dosbarth yn cyflwyno eitem. Yr oedd casgliad yr oedfa hon yn mynd at ymdrech Capel Coch at yr apêl 'Law yn Llaw' i estyn cymorth i bobl yn Angola, Zimbabwe a De'r Affrig. Mae dodrefn newydd yr Ysgol Sul wedi cyrraedd erbyn hyn. Yn ogystal â'r byrddau a'r cadeiriau a brynwyd yn rhannol â'r arian a gafwyd yn rhodd gan Bwyllgor y Carnifal, cafwyd cwpwrdd llyfrau a brynwyd gan aelodau'r eglwys er cof am y diweddwr Mr Thomas Henry Jones, 6 Rallt Goch, Ceunant.

Y Gymdeithas Lenyddol. Agorwyd tymor newydd y Gymdeithas nos Fawrth, Hydref 7fed gyda darlith gan y Parchg Iorwerth Jones Owen, Caernarfon. Llywyddwyd gan Mr John Huw Hughes. Bydd croeso i aelodau newydd ymuno â'r Gymdeithas pan gynhelir y cyfarfod nesaf, nos Fawrth, Tachwedd 4, am 7 o'r gloch yn Festri Capel Coch. Noson Gwis geir y noson honno.

Diolch. Dymuna Olwen Roberts, Argoed, Stryd Warden ddiolch o galon i'w theulu, cymdogion a'i ffrindiau am y cardiau, anrhegion, blodau a'r galwadau ffôn tra bu yn Ysbyty Gwynedd ac wedi iddi ddod gartref. Diolch.

Plas Pen-gwaith. Dymuniadau da i Miss Mary Williams, Mr Rowland Jones a Mr Booth ar ddathlu eu pen-blwydd yn ystod y mis.

Cydymdeimlwn â theulu y ddiweddwr Miss Margaret Roberts, gynt o'r Waunfawr, a fu farw yn Ysbyty Gwynedd.

Dymunir diolch i barti merched Cychau'r Grug o Fethel am rhoi noson o adloniant ardderchog; a hefyd i'r holl bartion eraill sydd wedi cynnal nosweithiau o gân yma yn ddiweddwr. Diolch yn fawr.

Undeb y Mamau. Wedi seibion yr haf ailgychwynwyd y cyfarfod misol o'r Undeb yn Eglwys St. Padarn bawn Mawrth, Hydref 7. Gweinyddwyd y Cymun Bendigaidd gan y Parchedigion Philip Hughes ac Emyr Owen. Yna darllenwyd cofnodion y cyfarfod blaenorol. Cydymdeimlwyd â thelu y ddiweddwr Mrs Margaret Gittins (Awstralia) a fu farw yn rhif 8 Rhes Efro tra yma ar ei gwyliau.

Talwyd y diolchiadau gan Mrs Jean Roberts ac fe eiliwyd gan Mrs Muriel Morris. Yn gofalu am y baned roedd Mrs Betty Williams a Mrs Betty Humphreys. Enillydd y raffl oedd Mrs Nan Owen.

Trefnwyd rhaglen ddiddorol iawn am y misoedd nesaf gyda chymorth y Rheithor. Diweddwyd drwy gydadrodd y Gras.

Cymdeithas Eglwys St. Peris a St. Padarn. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y tymor nos Iau, Hydref 9fed yn Eglwys St. Padarn, dan lywyddiaeth Mrs Ann Parry-Jones. Croesawyd yr aelodau a hefyd y gŵr gwadd, Mr John Meirion Morris, y cerflunydd enwog o Frynrefail. Dechreuwyd trwy weddi dan arweiniad Mr Ralph Jones.

Cafwyd sgwrs ddiddorol ac addysgiadol iawn gan Mr Morris, sydd yn awdurdod ar waith y Celtiaid, a chyda chymorth sleidiau eglurodd yn fanwl ystyr y ffurfiau yn y gwaith cywrair yma. Diolchwyd yn gynnes iddo ef ac i'r merched a ofalai am y te a'r raffl, sef Mrs Ann Parry-Jones, Mrs Evelyn Williams a Mrs Margaret Griffith, gan Mrs Nancy Jones, Taliesin. Mrs Moreen Lennon oedd yn lwcus y mis yma. Trafodwyd rhaglen ar gyfer y tymor, sydd yn edrych yn ddiddorol ac amrywiol dros ben, a diolchwyd i'r swyddogion am eu gwaith yn trefnu'r gwaith hwn bob blwyddyn.

Diolch. Dymuna Parti Lleisiau Lliwedd ddiolch i bawb a gyfrannodd anrhegion ac arian ac i bawb a gefnogodd y noson bingo a gynhaliwyd yng Ngwesty Dolbadarn nos Wener, 26 Medi. Gwnaed elw o £242 at Gronfa Steffan Price Jones, Llanrug.

Bu'r Parti yn cynnal Noson Lawen i agor cymdeithas Rhos y Gad, Llanfairpwll ar 2 Hydref a chafwyd noson ardderchog.

Enillwyr Clwb Ffrindiau Ysgol Dolbadarn (mis Hydref): £35: Mrs C. Roberts, 12 Llainwen Isaf (18); £25: Miss S. Evans, 2 Stryd Turner (203); £15: Mr M. Price, 28 Dôl Elidir (36); £10: Mrs S. Roberts, 17 Fron Goch (7); £5: Mr G. Owen, Maes Padarn (195). Diolch am eich cefnogaeth.

Capel Jerwsalem. Mewn cyfarfod o'r Gyfeillach ar Hydref 7fed, dan lywyddiaeth Mr Bert Thomas, cafwyd pnaawn difyr iawn gyda'r Parchg Gwynfor Williams yn clywed hanes Pennant Melangell a'r santes a'i ymweliad ag Ynys Iona gyda sleidiau yn dangos gweithgareddau'r ynys unigryw honno. Cafwyd trafodaeth belach gyda lluniaeth ysgafn. Bydd cyfarfod olaf y tymor ar Dachwedd 4ydd am 2 o'r gloch pryd dangosir fideo o daith Côr Meibion Dyffryn Peris i'r Almaen, Brwsel a Lwcsembwrg a'r ymweliad â bedd Hedd Wyn ac eraill. Bydd cyfle hefyd i drefnu ar gyfer y tymor nesaf. Croeso cynnes i bawb.

Diolch. Dymuna Dylan a Sioned, 4 Tai Gerddi ddiolch o galon i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am y llu anrhegion a'r dymuniadau da a dderbyniasant ar achlysur eu priodas yn ddiweddwr.


Dymuna Danny a Christine ddiolch i'w ffrindiau a'u teulu am yr holl anrhegion a'r dymuniadau da a dderbyniasant ar enedigaeth eu merch, Elin Mererid, chwaer fach i Melissa a Cai.

Dymuna Dwynwen ddiolch o galon i'w theulu a'i ffrindiau am yr anrhegion, cardiau a dymuniadau da ar achlysur ei phen-blwydd yn 80 oed. Diolch arbennig i Betty am ddarparu gwledd annisgwyl a hefyd Eiddwen, Lliwen a Llinos am helpu. Diolch yn fawr.

Hoffai Mrs Mathews, Pennaeth Cartref Plas Pengwaith ddiolch i Llion Roberts a Kevin Edwards o Lanberis am roi eu hamser i lanhau carpedi'r cartref yn rhad ac am ddim, fel treial yn eu hymgyrch newydd o lanhau carpedi a dodrefn esmwyth. Gellwch gysylltu â'r hogia drwy ffonio 0498 613675.

Dymuna Owen a Buddug, 5 Minafon ddiolch i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau, blodau ac anrhegion ar eu priodas rhuddem yn ddiweddwr. Diolch arbennig i Sheila ac Alfred.

**Cefnogwch
ein
Hysbysebwyrr**




**GWYNANT
PIERCE**

Cynyrchion Coed:-
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol
Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG
ffôn: (01286) 650349
(0589) 899901

**GWYN JONES
FFENESTRI ERYRI
GARTH ISAF, LLANRUG
(01286) 650764**

neu W. G. Roberts (Wil Korea) 676741

★ Ffenestri ★ Drysau ★ Drysau Patio



★ Porches
★ Byrddau Ffasia
★ Cladio
★ Conserfateris

12 MLYNEDD O BROFIAD YN Y MAES

**Emyr Jones
PLYMAR
A PHEIRIANNYDD
GWRESOGI**

Cynnal boileri nwy,
olew, tanwydd solat
a thredio peipiau

**44 Glanffynnon
LLANRUG
(01286) 673513**

hefyd
(0374)
496616
(symudol)



O SIAMBAR SELWYN

Pan mae rhywun yn derbyn sialens i gloddio i focs hanes y gorffennol ar gyfer un mis o'r flwyddyn, mae o'n debygol o eistedd i lawr am ychydig, a gofyn iddo'i hun — sut goblyn rydw i'n mynd o'i chwmpas hi? Lle dechreuia i?

Ond o fynd i'r Llyfrgell a'r Archifdy a dechrau chwalu a chwilio, a throï a throï hen bapurau yn fy llyfrgell fach fy hun, buan iawn mae digwyddiadau diddorol y gorffennol yn llifo'n ôl, a'r broblem fawr ydi — beth i'w adael allan o gynnwys sgwrs bum munud.

Ac mi fydda i'n berffaith onest efo chi — mae busnesu a thyrchu i focs hanes y gorffennol yn mynd i'ch gwaed chi megis. 'Does 'na gymaint o bethau diddorol, trist a doniol wedi digwydd o fewn cyfnod o un mis dros y canrifoedd. Cloddio i hanes mis Medi oedd y dasg a roddwyd i mi.

Rŵan 'ta. Tybed faint ohonoch chi sy'n gwybod mai ar y 9fed o Fedi 1098 y bu farw William y Conquerwr. O, do, mi glywais inna, fel chitha, am 1066 (yn Saesneg) pan oeddwn i'n hogyn bach yn ysgol Bethel. Ond chlywais i 'rioed yno am Cilmeri na 1282, a doedd gen i'r un syniad ble roedd Hastings. Ond yn 1087 y bu William druan farw pan faglod ei geffyl a bu'r godwm yn ddigon iddo. Wyddoch chi hefyd fod 'na fandaliaid wedi torri i'w fedd o gan ddwyn ei gorff pydredig gan adael dim ar ôl ohono ond asgwrn ei glun. Ac yn ystod y Chwyldro Ffrengig fe ddiflanodd yr asgwrn hwnnw hefyd. William druan — yntau wedi ei goncro. Cofiwch am 1087 yn ogystal â 1066. Mae'n haws eu dweud nhw a'u cofio nhw yn Saesneg.

Sais oedd Nicholas Breakspear. Yr unig Sais erioed i gael yr anrhydedd i fod yn Bab. Adweinid o fel Pab Adrian y Pedwerydd. Cafodd yntau ddiwedd go anghyffredin. Ar y

dydd cyntaf o Fedi 1159 fe lyncodd bry ac fe dagodd, a bu farw. Ia, dipyn o Bab a dipyn o bry.

Brenin arall fu'n anlwcus oedd Louis 14eg o Ffrainc a aned ar y 5ed o Fedi 1638. Wrth roi ei hosan am ei droed un bore, fe syrthiodd ei fawd o i ffwrdd.

Digon o waith i William na Nicholas na Louis feddwi ar golff. Fûm innau 'rioed yn golffwr 'chwaith. Fedra i ddim fforddio'r amser a bod yn onest. Ond mi fydda i'n cael pleser o wyllo'r gêm gan edmygu talent y gwyr sy'n byw arni. Rwy'n siŵr fy mod innau wedi torri record ym myd y bêl fach hefyd, oherwydd y tro cynta 'rioed i mi geisio rhoi swadan iawn i bêl golff, mi gês i *hole-in-one*. Tybed? O, do. Ar fwrdd llong yn croesi môr yr Iwerydd o Riod de Janeiro i Genoa roeddwn i ac mi roedd 'na le i ymarfer taro peli golff ar fwrdd y llong. Mi rois gynnig arni. Methais daro'r bêl. Ond wrth i'r clwb swingio'n ôl, fe darais y bêl o'r tu ôl i mi rhywsut ac fe landiodd yng nghanol dyfroedd hallt yr Atlantic. Fawr o gamp, meddech. Twll go fawr. Ia, a dwn hefyd. Ond roedd o'n *hole-in-one*, er mawr gywilydd i mi, ac er mawr foddhad i'r golffwyr profiadol a oedd yn dyst i fy nghamp ac yn wawdlyd glodfori fy nhalent. Na wnês i ddim prynu rownd iddyn nhw.

I aros ym myd y bêl. Wyddoch chi mai ar yr 8fed o Fedi 1888 y chwaraewyd y gêm cynta yng Nghyngrair y Bêl-droed yn Lloegr. Roedd yna ddeuddeng tîm pan ffurfiwyd y Gynghrair, ac un ohonyn nhw oedd tîm a fu'n destun sbort ar hysbyseb teledu yn ddiweddar — ia, Accrington — cyn iddo gael ei alw'n Accrington Stanley.

AR yr 11eg o Fedi 1895 fe fafodd Cwpan yr FA ei dwyn o siop yn Birmingham, ac yn 1963 (68 mlynedd yn ddiweddarach) fe gyfaddefodd hen ŵr 83 oed iddo doddi'r cwpan a gwneud darnau hanner coron ffug o'r

arian. Ydio'n wir bod Cwpan y Byd wedi'i wneud o aur? Ys gwn i pwy fydd y cynta i lwyddo i'w ddwyn o?

O, ydach, mi rydach chi'n dod o hyd i hanesion diddorol wrth gloddio i'r gorffennol.

Wyddoch chi, y rhai ohonoch chi sy'n dal i ddisgwyl ffortiwn bob nos Fercher a Sadwrn mai yn yr Almaen y cafwyd y loteri genedlaethol gynta a hynny mor bell yn ôl â 1494. Gwybodaeth hollol ddibwys yw'r ffaith mai George Washington oedd y

cynta 'rioed i gael dannedd gosod. Ond diddorol yw cofio mai dim ond pump oed oedd Mozart pan gyfansoddodd o'r gerddoriaeth ar gyfer *Twinkle, twinkle little star*. A phwy fas'n coelio i'r hufen iâ cynta gael ei lyfu ym mis Medi 1620. Pwy gafodd y pleser ys gwn i?

Mae un peth yn sicr. Mi fydd mis Medi 1997 yn fis cofiadwy iawn, ac yn fis hanesyddol i haneswyr y dyfodol am fwy nag un rheswm. Ia, mis llon a thrist fu mis Medi 1997. Ie, ie.

Ymateb i'r gair ddaeth o Siambar Selwyn

Wrth ddarllen yn yr Eco am yr Eisteddfod fawr a gynhaliwyd yng Nghastell Caernarfon daeth a pheth atgofion yn ôl imi. Er nad wyf yn cofio Gwalchmai, mae ei gadair gan Dafydd Horman, gynt o Venice, Llanrug, yng Nghemaes gan fod Dafydd yn or-ŵyr i Gwalchmai, rwy'n cofio achlysur yn yr awyr agored yn y Castell yn y dauddegau. Pasiant Heddwch o waith Cynan ydoedd. Roedd partïon o wahanol eglwysi yn cymryd rhan a'r darn mwyaf trawiadol oedd y Parchg Gwilym Williams Twr-gwyn fel Joseff o Arimathea a'r Greal Sanctaidd, ac yn canu â'i lais godidog. Bu perfformiad o'r ddrama 'Owain

Glyndŵr' gan Beria Gwynfa Evans yn y Castell, ond doeddwn i ddim yn y perfformiad hwnnw, ond mae gennyf lun o fy nhad a gymerai ran yr Esgob.

Wrth gwrs byddai hen gôr mawr Caernarfon yn ymarfer yno a byddai'r wlad oddiamgylch yn eu clywed. Ymarfer at gystadlu yn y Crystal Palace yn Llundain, ac allan o diwn, ond yn ennill yn erbyn corau mawr Cymru i gyd yn Llundain y diwrnod canlynol.

Oes, mae yna bethau diddorol wedi digwydd yn y Castell — pwysicach i ni'r Cymry na'r Arwisgo!

Cyngor Cymuned Llanrug

Cyfarfu Cyngor Cymuned Llanrug dan gadeiryddiaeth y Cynghorydd Paul J. Rowlinson yn Ysgol Cwm-y-glo nos Fawrth, 21 Hydref.

Roedd y Cyngor yn anfodlon iawn ynglŷn â'r diffyg symud ymlaen parthed y gwelliannau arfaethedig yn y Sgwâr Llanrug gan yr Adran Priffyrdd. Y gobaith oedd y byddai'r gwaith wedi'i gydlynw â'r gwelliannau gan gwmni Bysiau Arvon, ond yn ôl llefarydd ar ran Cyngor Gwynedd roedd problemau wedi codi ynglŷn â adleoli offer BT. Deallwyd bod y Cynghorydd Sir, Charles Jones, yn dal i bwysu ar i'r gwelliannau gael eu gwneud. Penderfynodd y Cyngor anfon at y Prif Weithredwr a'r Syrfewr yn datgan ei anfodlonrwydd, nid yn unig ar y pwynt uchod ond hefyd ar gais y Cyngor i gael sustem tawelu traffig o bobtu'r Sgwâr a groeslon Glyntwrog.

Datganwyd pryder hefyd ynglŷn â'r golwg annerbyniol sydd bellach yn bodoli yng nghyffiniau'r 'Outsider' a Charreg y Frân yng Nghwm-y-glo. Roedd nifer o ddatblygiadau wedi ei gychwyn ond heb ei gwblhau a rhai heb hawl cynllunio. Gofynnwyd i'r Clerc ofyn i'r Prif Swyddog Cynllunio ymyrryd yn y mater i geisio twtio'r fynedfa i Gwm-y-glo.

Derbyniwyd adroddiad ariannol hanner blwyddyn gan y Clerc a nodwyd i'r Cyngor wario tros dair mil a hanner o

bunnoedd ar adnewyddu offer y caeau chwarae, ychydig tros y gyllideb. Derbyniwyd adroddiad y Clerc.

Trafodwyd dogfen Cynllun Datblygu Unedol Cyngor Gwynedd a chroesawyd yr ymgynghoriad. Serch hynny nodwyd pryder nad oedd unrhyw amseriad wedi ei nodi i'r broses a bod un o'r amcanion, yn ymwneud â diwylliant, i'w weld yn negyddol iawn. Penderfynwyd gofyn am ymgynghoriad penodol ar y cynlluniau gyda Chynghorau Cymuned yn ystod y broses o ddatblygiad y Cynllun.

Roedd cyflwr nifer o lwybrau cyhoeddus yn destun pryder a phenderfynwyd gofyn i'r Adran Priffyrdd edrych ar y posibiladau i wneud gwelliannau.

Bydd cyfarfod nesaf y Cyngor yn cael ei gynnal yn Ysgol Gymuned Cwm-y-glo nos Fawrth, 4 Tachwedd 1997.



Dychmygwch blymar lleol wedi mynd i westy i wneud joban o waith, ac un o'r ymwelwyr yn sbio trwy'r ffenest ac yn ei weld efo'i fag tŵls ar ben y to flat. Meddwl yn siŵr mai lleidr oedd yno'n chwilio am ffordd i mewn i'r gwesty, ac yn galw'r awdurdodau i ddal y dihiryn.

Bistro

LLANBERIS

Ffôn: 871278

PERCHNOGION: DANNY A NERYS ROBERTS

LLE DA I WLEDDA

Beth am Fwffe Enwog Nerys (rhwng 20 - 70) i ddathlu pen-blwydd neu ben-blwydd priodas Partion rhwng 20 a 40. Ffoniwch am fanylion

Cofiwch am nosweithiau arbennig y Bistro
Nos Wener olaf bob mis

CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

Cydymdeimlad. Daeth profedigaeth lem i ran Mrs E. Williams, Pant Afon drwy golli ei hail ferch, Mrs Mary Eirlys Ellis yn Llanberis. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i Mrs Williams, ei phriod Dewi, ei merch Eleri, ei chwaer Alice, a'i brawd Idris, a'r teulu oll yn eu profedigaeth a'u colled fawr.

Ysgol Gymuned. Nos lau, Tachwedd 13 am 7 o'r gloch, cynhelir Cyfarfod Blynnyddol y Ganolfan. Mae angen aelodau newydd ar y pwyllgor rheoli ac estynnir croeso cynnes i bawb sydd â diddordeb.

Undeb y Mamau. Cynhaliwyd cyfarfod yn Hafan Elan nos Lun, Hydref 6. Dechreuwyd gyda gweddi. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Mrs E. Taylor, Mrs D. Jones a Mrs S. Hughes. Y mae nifer o'r aelodau yn wael eu hiechyd ar hyn o bryd ac anfonwyd ein dymuniadau am wellhad llwyr a buan iddynt.

Y gŵr gwadd oedd Mr Bobby Haines, Caernarfon a chafwyd ganddo sgwrs ddiddorol iawn a sleidiau am ei wyliau yn Seland Newydd. Mwynhawyd y noson yn fawr iawn. Yn gofalu am y baned roedd Mrs M. Latham a Mrs K. Jones a diolchwyd i Mr Haines a'r gwesteion gan Mrs H. Orritt. Enillwyd y raffl gan Mrs K. Jones. Terfynwyd y cyfarfod gyda gweddi.

Nos Fawrth, Hydref 7 aeth nifer o'r aelodau i Swper Cynhaeaf Undeb y Mamau a gynhaliwyd yn Y Felinheli.

Noson Tân Gwylt (5 Tachwedd) yn Y Ffrisan. Bydd y goelcerdd yn cael ei thanio am 6 o'r gloch. Cystadlaethau Guto Ffowc gorau a chystadlaethau eraill. Bydd cŵn poen, diodydd, rafflau a llawer o weithgareddau eraill.

Ffair Nadolig. Nos Wener, 28 Tachwedd am 6 o'r gloch yn Ysgol Cwm-y-glo. Bydd yno nifer o amrywiol stondinau — cŵn poeth, rafflau, paentio wynebau, ac ati. Dewch yn llu i gefnogi'r noson.

Eglwys Sant Gabriel. Cynhaliwyd yr Ŵyl Ddiolchgarwydd ar 12 a 13 Hydref. Fore Sul gweinyddwyd y Cymun Bendigaid gan ein Rheithor, y Parchg Philip Hughes. Yr organyddes oedd Sharon Williams, Ynys Iago a diolchir iddi am ei gwasanaeth.

Nos Lun bu Gosber a'r pregethwr gwadd oedd y Parchg John Gareth

Parry, Caergybi. Yr organydd yn y gwasanaeth hwn oedd Mr Cyril Williams, Caernarfon, a diolch yn fawr iawn iddo am ei wasanaeth. Diolchir hefyd i'r ddwy a ddarllenodd y llithoedd, sef Mrs Gwyneth Roberts a Mrs Dorothy Jones.

Dymuna'r Rheithor, y Parchg Philip Hughes a'r Wardeiniaid ddiolch i bawb am addurno'r eglwys ac am y rhoddion o lysiau, ffrwythau a'r blodau hardd yn ystod yr Ŵyl Ddiolchgarwch.

Dymuna aelodau'r eglwys wellhad llwyr a buan iawn i'r Curad, y Parchg Emyr Owen sydd wedi bod yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar. Brysiwch wella.

Noson Goffi. Cynhaliwyd Noson Goffi yn yr Ysgol Gymuned nos Fercher, Hydref 15 a'r elw tuag at Eglwys Sant Gabriel. Cafwyd noson lwyddiannus dros ben a diolchir yn fawr iawn i bawb am droi allan. Enillwyd y raffl fawr oedd —

1, Mr Reg Roberts, Ysgol Brynrefail; 2, Mrs Jones, 17 Glan Ffynnon, Llanrug; 3, Miss Wendy Smith, Ysgol Cwm-y-glo; 4, Mrs Tracy Jones, 6 Nant Ffynnon, Nant Peris; 5, Mrs Margaret Williams, 5 Cae'r Saint, Caernarfon; 6, Mrs Thomas, 2 Llwyn Beuno, Bontnewydd; 7, Mrs M. Roberts, 7 Afon Rhos, Llanrug; 8, Siop Beics y Castell, Caernarfon; 9, Mr Helen Bailey, Tan-y-ffordd, Bethel; 10, Mrs Evans, 4 Trem Eilian, Brynrefail; 11, Mrs Gwyneth Jones, 25 Bryn Tirion, Penisarwaun; 12, Mrs Williams, 19 Glan Ffynnon, Llanrug; 13, Mrs Margaret Roberts, Bronallt, Olgra Terrace, Llanberis; 14, Mrs Carys Roberts, 39 Cefn Hendre, Caernarfon; 15, Mr Clive Green, Bod Iestyn,

Cwm-y-glo; 16, Mrs Eirlys Williams, Marino, Brynrefail; 17, Mrs Hazel Davies, 36 Bro Seiont, Caernarfon; 18, Cledwyn, 30 Cae Mur, Caernarfon; 19, Miss Kelly Williams, 2 Bryn Hyfryd, Bethel; 20, Miss Betty Roberts, 2 Garth Drive, Gaerwen; 21, Mrs Sheena Medumont, Twitill, Caernarfon; 22, Mrs Savage, Groeslon, Cwm-y-glo; 23, Mrs Gwyneth Jones, 25 Bryn Tirion, Penisarwaun; 24, Mr Pritchard, 62 Tyddyn Llwyndyn, Caernarfon; 25, Hayley, Bryn Crwn, Cwm-y-glo; 26, Miss Tracy Jordan, Stryd Dinorwig, Caernarfon; 27, (01286) 675408; 28, Hayley, Bryn Crwn Cottage, Cwm-y-glo; 29, Mr R. J. Williams, 10 Lôn Ogwen, Bangor; 30, Mrs Stella Roberts, 50 Cae'r Saint, Caernarfon; 31, Mrs Rhiannon Kneale, 12 Ffordd Tysilio, Porthaethwy; 32, Mrs Mathews, Fresh Winds, Penisarwaun; 33, Mrs Thomas, 2 Llwyn Beuno, Bontnewydd; 34, Gwilym d/o Cynal Gofalwyr.

Enillwyd y raffl ar wahân oedd: Mrs Margaret Williams, Goleufryn; Mrs Dorothy Jones, Arosfa, Fron Gadair; Miss Meira Williams, Goleufryn — y dair o Gwm-y-glo.

Ysgol Cwm-y-glo. Croesawyd nifer o blant bach newydd i'r ysgol ddechrau Medi ac maent i gyd bellach wedi setlo i lawr yn ardderchog. Mae Ffion, Sophie, Mared, Mari, Lowri Haf, Dewi, Mark, David, Luke, Gethin ac Aron wrth eu bodd gyda Mrs Gwenifer Roberts a'r holl deganau newydd! Daeth tri arall atom o Ysgol Llanllyfni, sef Katrina i Bl. 6 a Sion i Bl. 1. Maent hwythau wedi ymgartrefu yn yr ysgol ac yn eu cartref newydd ym Mro Rhythallt, Llanrug.

Braf iawn yw gweld Mrs Hilda Orritt ein cogyddes yn ôl yn y gegin ac wedi gwella'n llwyr. Carem ddiolch o galon i Mrs Sian Welsh am lenwi'r bwlch yn ystod ei habsenoldeb.

Bu Miss Nia Griffith a Mr Tudor Jones o Lanrug yn gwneud cyfnod

arsylwi cyn dechrau ar eu cwrs hyfforddiant i athrawon yn Aberystwyth. Cawsom hefyd gwmni Miss Einir Wyn Roberts o Ysgol Brynrefail ar brofiad gwaith yn nosbarth y Babanod. Dymuniadau gorau i'r tri ohonoch a diolch am eich cyfraniad i'r ysgol.

Mae'n braf iawn cael croesawu Mrs Beth Green yn ôl atom tra'n parhau ar ei chwrs yng Ngholeg Menai. Bydd Miss Ruth Evans, hefyd o Goleg Menai, gyda ni eleni tra'n dilyn ei chwrs cychwynnol mewn Gofal Plant. Croeso atom Ruth a gobeithio y byddwch yn hapus yn ein plith.

Treuliodd y Babanod fore hynod o ddifyr yn y Gelli Gyffwrdd fel rhan o'u thema 'Coed' a bu Bl. 5 a 6 yn ymweld ag Eglwys Sant Gabriel yng nghwmni Mrs Gwyneth Roberts. Cawsom brawn buddiol iawn yn gwrando arni yn egluro trefn y gwasanaethau a hanes yr eglwys.

Enillwyd Clwb yr Ysgol dros y ddau fis diwethaf oedd Mr Keith Brymer Jones a Mr John Steele (mis Gorffennaf); a Mrs Joyce Jones a Mr Rhodri ap Llwyd (mis Medi). Llongyfarchiadau i chwi. Rydym wedi cael nifer o aelodau newydd i'r Clwb eleni ac mae croeso i fwy ymuno. Os am ymaelodi fe gewch gysylltu â'r ysgol — y gost yw £1 y mis.

Eisoos mae Cymdeithas Rhieni / Athrawon yr Ysgol wedi bod yn brysur. Cynhaliwyd Sêl Cist Car ar Fedi 12. Yn ffodus iawn gwnaed elw anrhydeddus cyn i'r mell t a'r taranau gyrraedd uwchben iard yr ysgol! Diolch i bawb gefnogodd y noson. Mae trefniadau ar gyfer Ffair Nadolig fydd yn cael ei chynnal ar nos Wener, Tachwedd 28.


I gloi gweithgareddau'r hanner tymor cynhaliwyd Gwasanaeth Diolchgarwch cyhoeddus yn yr Ysgol. Braf iawn oedd gweld y neuadd yn llawn o blant, rhieni a ffrindiau i'r gwasanaeth arbennig hwn. Carem ddiolch i'r Parchg John Pritchard am ddod atom ac am ei eiriau ystyrlawn i ni ar derfyn y cyfarfod. Eleni trosglwyddwyd y casgliad i Gronfa Steffan. Ers tros flwyddyn bellach mae Steffan a'i dad (Yncl Aled i ni) yn dod atom ar fore Gwener. Mae'r profiadau sy'n cyfnewid rhwng Steffan a'r plant yn amhrisiadwy a diolch ein bod yn cael y cyfle i'w groesawu fel hyn atom. **Diolch.** Dymuna Jean, 2 Bryn Gro ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau, galwadau ffôn, blodau a'r anrhegion a dderbyniodd ar ôl ei llawdriniaeth yn ddiweddar. Diolch yn fawr.



Rhai o blant yr Ysgol gyda'r Parchg John Pritchard yng ngwasanaeth Diolchgarwch yr ysgol.

Am eich
**ANGHENION
ADEILADU**
mawr a bach
MASNACHWYR
A "D.I.Y."
am
BRISIAU
CYSTADLEUOL
DEWCH AT

BRYN
(B & K Williams)



**Yr Hen Ysgol
Glanmoelyn
LLANRUG**
Ffôn: 677482

Fframia

GWASANAETH FFRAMIO LLUNIAU
Arbenigwyr ar fframio gwaith edau a nodwydd

Nifer helaeth o luniau ar werth

Dewis eang yn cynnwys:

**IVOR STUBLEY :: KEITH ANDREW
KEITH BOWEN :: ROB PIERCY**

PARC PADARN, LLANBERIS (870922)
(Ar gau dydd Sul a dydd Llun yn ystod y gaeaf)

DEINIOLLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: (01286) 871259

Camera yng ngofal Valmai Williams, Hafle, 2 Rhes Faenol
Ffôn: 871174

Anrhegu. Fore Sul, Hydref 19, cyflwynwyd anrheg i Mr Donald Jones ar ran yr eglwys i gydnabod ei wasanaeth fel diacon am 35 o flynyddoedd. Comisiynwyd englyn gan y Parchg John Gwilym Jones a chyflwynwyd copi hardd o'r englyn mewn ffrâm i Donald yn ystod oedfa bore'r Wyl Ddiolchgarwch. Cyflwynwyd hefyd dusw o flodau i Mrs Nan Jones i gydnabod ei gwaith hithau'n gofalu am adeiladau Ebeneser.

Cyngor Eglwysig. Cynhaliwyd oedfa Ddiolchgarwch yng nghapel Libanus nos Lun, Hydref 13. Roedd yn dda gweld rhai o bob eglwys yn y pentref yn cymryd rhan yn yr oedfa, a daeth nifer dda ynghyd. Bydd cyfarfod nesaf y Cyngor nos Lun, Tachwedd 10 yn Nghefnywaun, a cheir anerchiad gan y Parchg John Owen, Bethesda.

Diolchgarwch. Cynhaliwyd Gŵyl Ddiolchgarwch Ebeneser a Chefnywaun ddydd Sul, Hydref 19. Daeth cynulleidfia gref i oedfa undebol y plant yn Ebeneser yn y bore, a chymerwyd rhan gan blant ac ieuencid yr Ysgol Sul. Cynhaliwyd oedfaon yn y ddau gapel ar wahân gyda'r nos.

Genedigaethau. Llongyfarchiadau oddi wrth y teulu i Angharad a Charles Roberts, 29 Stryd Newydd, ar enedigaeth eu mab, Elgan Lewis, yn Ysbyty Gwynedd, ddydd Sul, Hydref 19.

Llongyfarchiadau i Nia a Glyn Ll. Gruffudd, 2 Tai Victoria ar enedigaeth eu merch fach, Catrin Llewelyn, ar Fedi 24. Mae Catrin yn ail wyres i Margaret C. Griffith, Cynfi ac yn bedwaredd wyres i Eirlys a

Terry Carpenter, Tal-y-bont, Dyffryn conwy. Pob bendith ar y tri ohonynt.

Llongyfarchiadau hefyd i'r Parchg a Mrs Trefor Lewis, Hen Golwyn ar ddod yn daid a nain am y tro cyntaf. Ganwyd mab bychan i Soulla a Dewi yn Llundain ar 19 Hydref.

Diolch. Dymuna Sian Elen Thomas, 97 Pentre Helen ddiolch am y llu cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar ei llwyddiant addysgol a'i mynediad i Goleg y Brifysgol, Bangor.

Plaid Cymru. Enillwyr Clwb 100 mis Medi oedd — £10; Mrs Myfi Jones, 11 Hafod Olau; £5: Mrs Alice Griffith, Tan-y-bwlch, Dinorwig. Mis Hydref — £10: Mr Barry Ll. Jones, 1 Tŷ'r Faenol, Clwt-y-bont; £5: Mrs Margaret Thomas, 1 Rhes Faenol. **Enillwyr Clwb 200 Y Seindorf** am fis Medi — 1, Mr E. W. Williams, 6 Ffordd Deiniol; 2, Mr R. A. Lewis, 95 Pentre Helen; 3, Mr Ieuan Parry, Yr Hafod, Clwt-y-bont.

Diolch. Dymuna Mr Hugh Vaughan Evans, Bron Eryri (3 Dinorwig Terrace gynt) ddiolch i'w deulu a'i ffrindiau am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar ei ben-blwydd yn 93 yn ddiweddar. Diolch hefyd i Mrs Mali a phawb yn Bron Eryri.

Diolch. Dymuna teulu'r ddiweddar Mr Ceinwen Jones, Cesail y Mynydd, gydnabod yn ddiolchgar y cydymdeimlad ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli mam, nain a chwaer annwyl. Diolch hefyd am gyfraniadau ariannol a dderbyniwyd, ac sydd wedi eu cyflwyno i Feddygfa Deiniolen a Chronfa Ymchwil Clefyd y Galon.

Diolch. Dymuna Bethan, 15 Hafod Oleu, ddiolch o waelod calon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl gardiau, anrhegion ac arian a gafwyd ar ei phen-blwydd yn 18 oed yn ddiweddar. Diolch yn fawr.

MAE'R

SAMARIAID

YN GWRANDO

YN ABBEY ROAD



BANGOR

(01248)

354646

PLAID CYMRU

Ffair Nadolig

YN Y GANOLFAN

NOS WENER, 5 RHAGFYR

am 7 o'r gloch

Mynediad: Oedolion 40c. Plant 15c

Bydd Siôn Corn yn galw heibio

W.J. GRIFFITH

PLYMAR A GOSODWR
GWRES CANALOG

Pant Tirlon, Llanrug
Ffôn: (01286) 673248

Gosodwr

Nwy

Cofrestredig

Corgi



Aelod o'r
Association
of Mechanical
Services
Contractors

Dim un dasg rhy fychan
Dim un dasg rhy fawr

+

**J.M.
JONES**

A'I FEIBION

**GWAITH
CERRIG
BEDDAU**

Hen Ogoniant y Chwareli Llechi

Bydd cyfle i weld casgliad o ffotograffau annhygoel yn Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis yn ystod Hydref a Thachwedd mewn arddangosfa o waith Jean Napier.

Gan gymryd ei hysbrydoliaeth o gerdd a gyfansoddwyd yn 1930 gan y diweddar Richard Jones, cyn-löwr a gofawr Chwarel Lechi Y Rhosydd, ger Blaenau Ffestiniog, y mae 'Adlais o Hen Ogoniant' yn gasgliad atgofus a swynol, sy'n gresynu at ddirywiad y diwydiant llechi llewyrchus.

'Fe'm cyflwynwyd i'r hen chwarel wrth ddringo yng ngogledd Cymru lawer blwyddyn yn ôl ac aethpwyd ar daith wlyb, oer a syfrdanol drwy'r lefelau tanddaear lle câi'r llechfaen ei gloddio o du mewn y mynydd gan y chwarelwyr,' meddai Jean.

Cafodd y profiad effaith mawr arni a phenderfynodd


ddychwelyd a thynnu cannoedd o luniau rhwng 1989 a 1996 i geisio dal ar ffilm y teimladau a ysgogwyd gan yr adfeilion.

Bydd yr arddangosfa i'w gweld rhwng 10 a.m. a 4 p.m. o ddydd Llun i ddydd Gwener, o Hydref 4ydd hyd Dachwedd 30ain. Codir tâl mynediad a bydd y mynediad olaf am 3 p.m.

Ffotograffydd proffesiynol yw Jean Napier. Cafodd ei geni yn Llundain, ond bu'n byw yn Aberdyfi ers pum mlynedd. Mae'n gweithio ar ei liwt ei hun, ac yn arbenigo mewn ffotograffiaeth sy'n cofnodi hanes cymdeithasol a golygfeydd a theithiau. Mae wedi teithio i China, Tanzania a Zimbabwe yn ystod y pum mlynedd diwethaf a thynnu nifer fawr o luniau; ond daw'r prif ysbrydoliaeth ar gyfer ei gwaith erbyn hyn o'r golygfeydd o'i chwmpas yn Eryri.

TORRI CWYS NEWYDD

Mae datblygiadau o fewn Cynllun Cwysi, y cynllun amaethyddol a reolir gan Menter a Busnes o Aberystwyth, yn golygu fod pum cysylltydd newydd wedi caei eu penodi'n ddiweddar. Un o'r rhain yw Nesta Griffiths o Lanwnda ger Caernarfon a fydd yn gyfrifol am ddatblygu gweithgareddau Cwysi yn Arfon.



Mae'r ffaith fod Nesta wedi'i geni a'i magu ar fferm a'i diddordebau cymdeithasol eang yn golygu ei bod yn adnabod ei hardal yn dda ac yn berson delfrydol ar gyfer cyflawni gofynion y swydd a'r Cynllun.

Ar hyn o bryd mae'r Cynllun, trwy gyfrwng 16 o gysylltwyr lleol, yn cydweithio â theuluoedd ffermydd yn ardaloedd Môn, Gwynedd, Conwy, Dinbych, Powys, Ceredigion, Caerfyrddin a Gogledd Penfro.

Bydd Nesta yn gyfrifol am feithrin cysylltiadau gyda'r boblogaeth amaethyddol yn ei hardal gan ddefnyddio dulliau amrywiol ac arloesol fel gêmiau a fideos a gynlluniwyd yn arbennig i ysgogi syniadau a thrafodaeth.

Bydd hefyd yn datblygu gweithgareddau diweddaraf y Cynllun fel, er enghraifft, datblygu cyswllt rhwng ysgolion a ffermydd yn ogystal â threfnu nosweithiau Clwb Cwysi lle daw teuluoedd ferm ynghyd i drafod busnes a mwynhau.

Mae trefnu cyrsiau lle bo'r galw ymhlith ei dyletswyddau yn ogystal â chasglu storïau positif am fentrau gan deuluoedd fferm i'w cynnwys ym mhapurau bro yr ardal ac yng nghylchgrawn y Cynllun, *Torri Cwys* sydd erbyn hyn yn cael ei ddosbarthu i dros bedair mil o ffermydd.

Nod pennaf Cynllun Cwysi yw cynorthwyo teuluoedd fferm i wynebu'r newidiadau ym myd amaethyddiaeth. 'Y gobaith,' meddai Nesta, 'yw y bydd darganfod ffyrdd i ychwanegu at incwm y fferm yn cadw mwy o bobl ifanc yn eu hardaloedd cynhenid.'

Cefnogwch ein
Hysbysebwy

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263



Ysgol Gymuned Penisarwaun. Fel rhan o thema'r dosbarth daeth y nyrs ysgol, Mrs Eluned Mason, i siarad gyda Bl. 5 a 6 am gadw'r corff yn iach. Yna daeth y deintydd gan droi i mewn am sgwrs gyda'r babanod hefyd. Ymwelwyr eraill i ddosbarth Miss Griffith a Miss Jones oedd Anti Jean a'r plismon lleol a ddaeth i siarad â'r plant am eu gwaith, eto fel rhan o thema'r dosbarth.

Croesewir Miss Claire Lambert i blith staff yr ysgol. Fe fydd Miss Lambert yn dilyn cwrs Hyfforddiant Gwynedd yn ein cwmni am gyfnod helaeth. Ar ôl gwyliau'r Diolchgarwch fe fydd Mr Gavin Jones o'r Coleg Normal yn cychwyn ar ei ymarfer dysgu gyda Bl. 5 a 6.

Pleser yw cyhoedd fod Manon Roberts wedi cipio'r darian fel prif lenor yr ysgol o dan 12 oed, am ei gwaith am Anne Frank. Llongyfarchiadau mawr Manon.

Uchafbwynt yr hanner tymor oedd ein gwasanaeth Diolchgarwch yng nghwmni holl staff yr ysgol. Paratowyd bwrdd hyfryd iawn o roddion y plant a gludwyd i'r Cartref ar ôl y gwasanaeth. Diolch i bawb am eu caredigrwydd.

Ysgol Sul Undebol Bosra. Cynhaliwyd Gwasanaeth Diolchgarwch yn dwyn y teitl, 'Hau'r Had a Medi'r Cynhaeaf' gan aelodau'r Ysgol Sul, fore Sul, Hydref 19 am 10 y bore. Gwnaed casgliad at achosion da. Diolch i'r plant am ddysgu eu gwaith ac am ddod a llysiau a ffrwythau a blodau lliwgar i addurno'r capel.

Urdd Adran Bentref. Nos Fawrth, Hydref 28, ymaelododd nifer fawr o blant a chafwyd gêm o Chwilen. Tachwedd 4, bydd gêmiau'r Urdd. Tachwedd 11, Dawnsio Creadigol gyda Jên Jones. Tachwedd 18, Heddwes Phil Jones a'i gi. Tachwedd 25, Cwis yng ngofal Dyfed Jones. Rhagfyr 2, Gwaith Llaw hefo Elinor a Susan. Rhagfyr 9, Parti a Disgo.

Gwellhad. Anfonir cofion annwyl at bawb sy'n sâl yn y pentref ac at Mr a Mrs Munro a Mrs Kate Williams yng nghartref Pengwaith, Llanberis. Gobeithio fod Mrs Eileen Thomas, Bron y Gaer a Sioned Wyn Jones, 17 Bryntirion yn gwella wedi eu triniaethau yn Ysbyty Gwynedd.

Colli Anwyliaid. Cydymdeimlir yn ddwys â Mrs Alice Morris, Cae'r Waun yn ei phrofedigaeth o golli chwaer annwyl.

Anfonir ein cydymdeimlad dwysaf i Carys, Arwel, Dafyd ac Olwen, ac Elizabeth a'r teulu, Cae Eboni yn eu colled o golli mam a nain ofalus a charedig.

Eisteddfod Bentref. Bu'r Eisteddfod yn un hynod lwyddiannus a chartrefol eto eleni. Roedd y Neuadd Gymuned yn orlawn a bu cystadlu o safon uchel o'r oedran lleiaf un i'r rhai hyn. Dymuna'r pwyllgor ddiolch yn ddiffuant i'r beirniaid Edward a Gwyneth Morus Jones am eu geiriau caredig i bob un o'r plant. Roedd yn braf eu clywed yn canmol ac yn annog y cystadleuwyr ac yn datgan eu bod wedi mwynhau eu hunain yn fawr o 6 p.m. hyd 12.30 a.m. Diolch o galon i'r ddau ohonynt. Diolch hefyd i Mrs Janes Pierce a Mr Islwyn Williams am feirniadu'r gwaith llaw, coginio ac arlunio; ac i'r gyfeilyddes amryddawn Annette Bryn Parri. Cafwyd anerchiad hwyliog gan Anwen Hughes a chafwyd straeon difyr ganddi am ei dyddiau cynnar hithau yn Eisteddfod Bentref Penisarwaun. Diolchir i bawb am gefnogodd yr Eisteddfod mewn unrhyw fodd. Llauer o ddiolch hefyd i Elizabeth Jones ac Eifion Harding am arwain yr Eisteddfod ac i Marina Jones am hyfforddi'r plant hefo'r canu.

Pwyllgor Neuadd. Tynnwyd Clwb Cant mis Hydref a'r enillwyr oedd — 1, Glenys Williams, Trem Cynfi; 2, E. Jones, Cae Corniog Mawr; 3, Gwilym Roberts, Weirglodd Goch. Genedigaeth. Llongyfarchiadau i

John a Dilys, Weirglodd Goch ar enedigaeth eu merch fach, Mared Elen, chwaer fach i Megan Lois.

Croeso. Croeso cynnes i Nia, William, Megan a Cai sydd wedi symud i fyw i'r Gors. Pob dymuniad da i chwi yn eich cartref newydd. **Cartref Newydd.** Gobeithio fod Phyllis a'i mham, Gors gynt, wedi ymgartrefu yn eu cartref newydd yn Rhiwlas — pentref braf a chyfeillgar arall!

Ffair Gynhaeaf. Nos Lun, 13 Hydref cynhaliwyd y Ffair Gynhaeaf flynyddol yn Neuadd yr Eglwys. Enillwyr y raffl oedd — hamper nwyddau: Yvonne Orrocks; gwin coch, Yvonne Orrocks; gwin gwyn, Mrs Blodwen Pritchard; sachaid o datws, Mr Salisbury; potel sherry, Mrs Mair Orrocks; hamper ffrwythau, Mrs Annie Hughes; hamper llysiau, Erin Watson; potwel o win, Meirwen, 5 Bryntirion; tin bisgedi, Mr Salisbury; bocs siocled, Manice, Tyddyn Perthi; hamper llysiau, Mrs Elanor Williams, Llanrug; bocs bisgedi, Mrs Margaret

Christian. Dymuna'r Wardeiniaid a'r Clerig mewn Gofal ddiolch i bawb am bob cyfraniad a wnaeth y noson yn llwyddiant.

NOSON HWYLIOG

Bydd yn anodd peidio chwerthin pan recordir noson arbennig ar gyfer Radio Cymru yng Nghlwb Pêl-droed Bethesda nos Fawrth, Tachwedd 18. Straeon doniol o chwareli'r Pênryn, Dinorwig, Dyffryn Nantlle a 'Stiniog fydd deunydd 'Llond Wagan o Chwerthin'. John Ogwen ac Arwel Jones (Hogia'r Wyddfa a chadeirydd pwyllgor yr Eco) fydd yn dweud y straeon ac mae croeso i unrhyw un ddod yno. Ni fydd tâl mynediad. Bydd y noson yn cychwyn am 8 o'r gloch a bydd cyfle wedi'r recordiad i aelodau'r gynulleidfa gyfrannu eu straeon hwythau. Darlledir y rhaglen rywbryd yn y flwyddyn newydd.



Plant Ysgol Sul Bosra — Hau'r Had a Medi'r Cynhaeaf.

EISTEDDFOD MÔN GŴYL Y LLYS, 1998

16 Mai 1998

★ DYDDIADAU PWYSIG I'W COFIO ★

ADRAN Y DDRAMA

CYSTADLEUAETH TLWS Y DDRAMA. Cyfansoddi drama un act y gellir ei pherfformio mewn neuadd bentref, na chymer fwy na 45 munud i'w pherfformio, na chafodd ei gwobrwyo o'r blaen.

Gwobr: Tlws y Ddrama a £100

Dyddiad olaf i dderbyn cyfansoddiadau yw 1 Ionawr 1998 i Mr Alwyn Pleming, Bryn Hafod, Pen-y-bent, Llanfairpwll, Ynys Môn.

ADRAN LLENYDDIAETH

CYSTADLEUAETH Y GADAIR. Casgliad o gerddi caeth neu rydd, rhwng 6 ac 8 mewn nifer ar y testun 'Cysgodion'.

Gwobr: Cadair yr Eisteddfod a £120

CYSTADLEUAETH Y FEDAL RYDDIAITH. Cyfrol o waith gwreiddiol.

Gwobr: Y Fedal Ryddiaith a £120

Dyddiad olaf i dderbyn cyfansoddiadau: 14 Mawrth 1998 i Mr Islwyn Williams, 9 Teras Fictoria, Biwmares, Ynys Môn.

ADRAN CERDDORIAETH

Cyfansoddi Emyn-dôn mewn cynghanedd lawn i eiriau 'Emyn Gŵyl Ddewi', Dewi Jones (Cerddi Mathafarn)

Gwobr: £50 i'w rhannu

Dyddiad olaf i dderbyn cyfansoddiadau: 1 Mawrth 1998 i Mrs Gwenda Morris Jones, Môn-arfon, Tŷ Croes, Ynys Môn neu Mrs Carys Lloyd Jones, Felin Fach, Llangristiolus, Ynys Môn.

★ ★ ★ ★

Os am gopi o'r RHESTR TESTUNAU cysylltwch a'r Ysgrifennydd:

Mr BRYNER JONES, ERDDIG, PORTHAETHWY
YNYS MÔN (01248) 712442
neu yn eich siopau lyfrau Cymraeg lleol

GWASANAETH TRYDANOL

**ERYRI
ELECTRICAL
FRON
DEINIOLLEN**

- ★ AIL WEIRIO
- ★ CAWODYDD
- ★ GOLEUADAU DIOGELWCH
- ★ LARWM LLADRON
- ★ CYNNAL A CHADW

(01286) **870858** **SYMUDOL**
0467 774 326



Dydi'r 'Rhwydwaith' ddim yn Newydd GW3GYG



'Rwyf yn un o'r nifer sy'n hoff iawn o hen luniau'r ardal yma, a phan fo amser yn caniatáu, does dim yn well gennyf nag edrych drwy luniau mewn siopau hen greiriau (antiques).

Rai wythnosau'n ôl, pan yn dilyn fy hoff ddiddordeb, tarodd fy llygaid ar hen gerdyn post eithaf cyfarwydd yn dangos yr Wyddfa a phentref Llanberis o'r Fach-wen. Y peth a wnaeth imi ail afael yn y cerdyn hwn oedd y llythrennau bras 'GW3GYG' sydd wedi'i argraffu ar gornel uchaf y llun.

Troais y cerdyn post drosodd gan ddisgwyl gweld neges digon cyfarwydd a chyfeiriad rhywun fyddai'n llwyr anhysbys imi. Ond, yn lle'r ysgrif arferol roedd arno wledd o wybodaeth am un o westai Llanberis ddegau o flynyddoedd yn ôl. Cerdyn i hysbysebu Gwesty'r Prince of Wales oedd gennyf. Mae arno fanylion prisiau aros: Gwely a Brecwast am 4/6 (23c heddiw!); Gwyliau am Wythnos: £2.10s.0d; bath am 6d; a phaned yn y bore am 3d. Ar waelod y cerdyn mae enw perchennog y gwesty — E. Wakeham.

Yr unig E. Wakeham roeddwn i'n gyfarwydd ag ef oedd y diweddar Eric Wakeham a fu'n berchennog ar pictiwr Llanberis yn ystod fy mhientyndod. Wedi imi ddod gartref i Lanberis fe wnes ychydig o ymholiadau ynglŷn â'r Prince of Wales a darganfod fod Eric Wakeham, tad Brian a Derek, wedi bod yn berchennog y Prince of Wales.

Trwy lwc deuthum i ddeall ystyr y llythrennau bras 'GW3GYG' sydd ar flaen y cerdyn post — llythrennau cofrestru trosglwyddwr radio (Amateur Radio Transmitter) ydynt, i nodi unigolyn a fu'n llwyddiannu mewn arholiad cenedlaethol i'w alluogi i

drosglwyddo negeseuon dros yr awyr gyda pheiriant radio. Bu Eric Wakeham yn ymddiddori yn y maes hwnnw am nifer o flynyddoedd.

Gyda'r holl wybodaeth yn fy meddiant penderfynais ffonio Brian, mab Eric Wakeham, a gadewais y neges yma ar ei beiriant ateb: 'Os yw'r llythrennau GW3GYG yn golygu rhywbeth iti, ffonia fi yn ôl.'

Mewn byr amser roedd Brian ar y ffôn ac yn mynnu fy mod yn gwybod y llythrennau unigryw roedd ei dad yn cael ei adnabod wrthynt pan yn trosglwyddo negeseuon ar ei beiriant radio. Daeth Brian i'm gweld a dangosais y cerdyn post iddo.

Deallais gan Brian fod ei dad yn hoff iawn o adeiladu peiriannau radio ac yn cysylltu'n aml â phobl tebyg iddo'i hun mewn gwledydd tramor. Mae gan Brian flwch sy'n cynnwys cerdyn aelodaeth ei dad gyda Chymdeithas Trosglwyddwyr Radio Prydeinig, ynghyd â llyfr yn cofrestru holl aelodau trosglwyddwyr radio y bu mewn cysylltiad â hwy ar draws y byd — Canada, America, Ewrop ac Asia — ar ei radio.

Dywedodd Bert Thomas, ewythr Brian, wrthyf ei fod yntau wedi bod yn ymddiddori yn y maes radio ac yn fynych byddai'n cysylltu â'i frawd yn Ne Affrica — yn rhad ac am ddim!

Mae llawer o sôn y dyddiau hyn am y defnydd a wneir â chyfrifiaduron i drosglwyddo negeseuon, a lluniau hefyd, dros yr holl byd. Gwifrau teleffôn sy'n cysylltu'r cyfridiur unigol â'r canolfannau ble mae'r holl wybodaeth yn cael ei gasglu a'i gadw, a'r enw cyfarwydd ar y sustem sy'n galluogi unigolyn i drosglwyddo'r holl wybodaeth yma yw'r 'Rhwydwaith' neu'r 'Internet' yn Saesneg.

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

Camera yn ngofal Heulwen Hughes, Argoed. Ffôn: (01286) 650556

Colled. Bu farw Margaret Roberts, Ardd Isaf (ac yn ddiweddar o Plas Pen-gwaith, Llanberis) yn Ysbyty Gwynedd ar 13 Hydref. Roedd yn gyn-organyddes eglwysy Waunfawr a Betws Garmon am dros saith deg o flynyddoedd. Dymuna ei nith, Mrs Olive Owen a'r teulu ddatgan eu diolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth.

Noson o Ganu Carolau. Gwahoddir chwi'n gynnes i noson o ganu carolau yng nghwmni Rosalind a Myrddin gydag Arwel Jones (Hogia'r Wyddfa) yn arwain, yng Nghapel Croesywaun, nos Sul, 7 Rhagfyr am 6.30 o'r gloch.

Bydd mynediad trwy raglen a'r elw tuag at Gymdeithas Atal Creulondeb i Blant (NSPCC).

Gwasanaeth Diolchgarwch. Llongyfarchiadau a chanmoliaeth i aelodau Ysgolion Sul y pentref am wneud eu rhan mor arbennig o dda yn y gwasanaeth diolchgarwch. Diolch i'w hyfforddwyr.

Cydymdeimlo. Anfonwn ein cydymdeimlad i deulu y ddiweddar Miss Margaret Roberts, Ardd Isaf; ac i deulu y ddiweddar Mrs Reed, 23 Tref Eilian.

Cleifion. Anfonwn ein cofion cynhesaf i Mrs Helen Jones, Tref Eilian sydd yn yr ysbyty. Croesawn Mr John Elwyn Roberts, Glaslyn, Bro Waun, adref o'r ysbyty.

Diolch. Dymuna Mr Dewi Richards, Cartref Bryn Llewelyn, Ffestiniog ddiolch yn fawr iawn i'w gyfeillion yn yr ardal am y cardiau a'r llythyrau a dderbyniodd tra yn yr ysbyty. Hefyd diolch am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniodd yn ei brofedigaeth o golli ei frawd.

Anfonwn ein cofion cynhesaf ato gan obeithio ei fod yn gwelld wedi'r lawdriniaeth a dderbyniodd, ac

estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf iddo yn ei brofedigaeth o golli ei frawd.

Diolch. Dymuna Mrs Betty Griffith, Gorffwysfa ddiolch yn fawr i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau, galwadau ffôn a'r anrhegion a dderbyniodd tra yn yr ysbyty ac wedi iddi ddod adref. Diolch yn fawr.

Diolch. Dymuna Mrs Pat Parry, Ffridd Felen ddiolch i'w theulu a'i ffrindiau am y caredigrwydd a dderbyniodd ar ôl iddi syrthio a thorri ei choes a'i braich.

Dathlu Pen-blwydd. Llongyfarchwn Branwen Owen, Glan Gors ar gyrraedd ei deunaw oed. Dymuniadau gorau iti i'r dyfodol, Branwen.

Enillwyr Clwb 300 mis Medi — £40: Mr a Mrs R. Parry, Ffridd Felen; £25: Mrs M. V. Jones, Hafod-y-coed; £10: Mr Eifion Williams, Bod Idris.

NOSON O GANU CAROLAU

GYDA

Rosalind a Myrddin

ARWEINYDD:

Arwel Jones

YNG NGHAPEL CROESYWAUN WAUNFAWR

NOS SUL, 7 RHAGFYR
am 6.30 o'r gloch

MYNEDIAD TRWY RAGLEN
A'R ELW I GYMDEITHAS ATAL
CREULONDEB I BLANT (NSPCC)

CROESO CYNNES I BAWB

Prince of Wales Hotel

LLANBERIS

'North Wales

TELEPHONE: LLANBERIS 259

Situated at the foot of Snowdon amongst the most beautiful scenery in Wales.

HOT AND COLD WATER IN ALL BEDROOMS

FREE GARAGE

A.A. & R.A.C.

PROPRIETOR E. WAKEHAM

Tariff

BED and BREAKFAST	...	4 6
PER DAY (minimum 3 days)	...	8 0
PER WEEK	...	2 10 0
BATH	...	6
MORNING TEA	...	3

TIMES OF MEALS

BREAKFAST	...	8-9.30 a.m.
LUNCHEON	...	1-2 p.m.
DINNER	...	7 p.m.

SUNDAYS

BREAKFAST	...	8.30-10 a.m.
DINNER	...	1 p.m.
SUPPER	...	7.30-9.30 p.m.

AFTERNOON TEA DAILY 5 P.M.

Felly dydi'r gallu i gysylltu â phobl yn fyd-eang ddim yn rhywbeth newydd — roedd eich teidiau yn defnyddio tonnau

radio i wneud hynny ymhell cyn i'r 'rhwydwaith' gael ei chreu.

EIFION ROBERTS



ALOE VERA

Am well iechyd yn naturiol, profiwch nerth **ALOE VERA**. Canfuwyd iddo roi esmwythâd i lawer sy'n dioddef o afiechydon cyffredin

fel:- Cryd y Cymalau, Mygdod, Dŵr Poeth,

I.B.S., Afiechydon y Croen, Diffyg Egni

Afiechydon yr Arennau, Pwysau Gwaed a.y.y.b.

am fwy o fanylion, cysylltwch ag Alun, Ffôn: (01248) 670746

GARTH MAELOG

PET CENTRE AND GROOMING SALON

Bwyd ac anghenion
Anifeiliaid anwes bychan
Pysgod dŵr oer
Offer pysgota



Molchi, cribo a chlipio
cŵn a chathod
o bob math
gan arbenigwyr

STRYD FAWR, LLANBERIS 870840

Côr Meibion Dyffryn Peris ar daith

Wedi hir ddisgwyl fe ddaeth y diwrnod pan gychwynnodd Côr Meibion Dyffryn Peris ar eu taith i'r gwledydd tramor gan gychwyn yn weddol brydlon o Lanberis fore Sadwrn, 27 Medi, a phawb wedi llwyddo i godi mewn pryd a neb wedi cysgu'n hwyr!

Cyrhaeddwyd Folkestone yn y pnawn a chael peth amser i fynd o gwmpas y siopau cyn mynd ar y trên Shuttle a thrwy dwnnel y Sianel. Cyrraedd Calais i fyd arall (neb yn siarad 'run fath â ni nac yn dreifio ar yr ochr iawn — gofynnwch i Ifan Bryn ddweud stori'r dyn hwnnw yn dysgu dreifio ar yr ochr arall!).

Teithiwyd wedyn i Ostende gan aros yno tan wyth o'r gloch y nos a phawb wedi cael llond bol o fwyd. Ymlaen wedyn i Bruxelles sy'n dref fawr iawn, ac yn reit wyllt hefyd! Cafwyd hyd i'r gwesty lle roedden i aros ynddo tan ddydd Mawrth ac erbyn hynny roedd pawb wedi blino er i rai fynd am dro o gwmpas y dre tra fo eraill wedi blino gormod ac yn aros yn eu hystafelloedd.

Ddydd Sul — codi'n reit brydlon ac i lawr am frecwast — BRECWAST!! Diwrnod rhydd heddiw i fynd o gwmpas a'r bws yn mynd â ni i weld dinas hynafol Brugges sy'n dyddio'n ôl i'r Canol Oesoedd. Aeth rhai ar daith mewn cwch ar y camlesi tra fo eraill yn crwydro'r siopau. Aed ymlaen wedyn i Dicksmuide i weld y 'Death Trenches' — golygfa ddychrynlyd ac yma y

gwelsom dŵr Yser a gafodd ei adeiladu i gofio am y miloedd o fechgyn a laddwyd yno. Teithiwyd wedyn i 'Artillery Wood' ble mae'r bardd Hedd Wyn wedi'i gladdu a chynhaliwyd gwasanaeth teimladwy wrth ei fedd. Darllenwyd darn o farddoniaeth a rhan o'r Ysgrythur gan Arwel Jones ac fe'n harweinwyd mewn gweddi gan Bob Lloyd, ac fe ganodd y côr Englynion Coffa Hedd Wyn, a'r emyn Mi glywaf dyner lais. Gosododd cadeirydd y côr dusw o flodau ar ei fedd ac, ar ran y Lleng Brydeinig, gosododd Roy Griffith flodau ar fedd un o fechgyn Deiniolen a laddwyd yno.

Teithio wedyn i dref Ypres i weld y Menheim Gate — tref hynod o dlws — a chael y fraint o glywed y 'Last Post' yn cael ei seinio am wyth o'r gloch bob nos fel y gwnaed am yr hanner can mlynedd diwethaf. Dychwelwyd o Ypres yn ôl i'r gwesty yn Bruxelles (diwrnod rhydd ddwedon nhw?!).

Dydd Llun. Mynd o amgylch dinas Bruxelles i weld y golygfeydd hynod yno. Gyda'r nos canu mewn neuadd hardd iawn ac fe aeth popeth yn reit hwylus. Yna yn ôl i'r gwesty i bacio ar gyfer y daith i'r Almaen.

Dydd Mawrth. Cychwyn o Bruxelles am 9 y bore — bore braf iawn — ac aros yn Waterloo ble bu Napoleon yn rhyfela yn 1815 a chael gweld yr amgueddfa yno. Ymlaen wedyn drwy harddwch yr Ardenes i dref



'Dim byd haws, hogia,' meddai Ifan Bryn ar ôl iddo ddangos sut i hollti llechen yn y cyngerdd yn Amgueddfa Martalange.

Spa cyn teithio 'mlaen i Luxembourg a thros y ffin i'r Almaen, ble y byddid yn aros am ddwy noson yn Wasserliesch Bai Trier gan gynnal cyngerdd yn amgueddfa Des Ardoisieres gyda'r nos. Cawsom groeso cynnes yno a digon o fwyd (gormod o fwyd cyn canu!). Pan oeddem ar ganol bwyta fe gerddodd Haydn (o Amgueddfa Lechi Llanberis) a'i wraig i mewn ac roedd pawb wedi dychryn eu gweld. Yno, yn yr amgueddfa, y dangosodd Ifan Bryn i'r gynulleidfa sut i hollti clwt go iawn o lechen. Bu chwarel lechi yn y cyffiniau hwnnw rywbryd ar ddechrau'r ganrif a hawdd gweld hynny wrth deithio trwy'r pentrefi a sylwi ar y toeau llechi, a cherrig drysau o

lechen las. Fe ganodd y côr yn ardderchog y noson honno. Cyfnewidwyd anrhegion i gofio am yr ymweliad.

Dydd Mercher. Crwydro dinas hynafol Trier a arferai fod yn brifddinas yr Ymerodraeth Rufeinig, a gweld y 'Black Gate'. Yma hefyd y ganwyd Karl Marks. Aed wedyn i dref hyfryd Bernkastel sy'n enwog am ei gwinoedd. Yna cynhaliwyd cyngerdd yn ninas Luxembourg yn yr hwyr. Troi'n ôl am y tro olaf i bacio unwaith eto.

Dydd Iau. Cychwyn am adref am 8.20 y bore. Cyrhaeddwyd yn ôl i Lanberis am 2 o'r gloch y bore canlynol. Gyda diolch o galon i Gwilym a Gareth am ein cludo mor ofalus ar hyd y daith.

G. LEWIS

DRAENOG

Mae 'na westai hael ar y Cyfandir. Mae nhw'n darparu te a choffi yn y stafelloedd. Mae nhw hefyd yn darparu poteli bach o ddiod mewn rhyw fath o fini-bar. Gwerthfawrogai un aelod o Gôr Meibion Dyffryn Peris y ddarpariaeth gymaint nes iddo wagio'r cwpwrdd ac yfed pob potel. Braidd yn annisgwyl oedd y bil am £28 a dderbyniodd wrth ymadael â'r gwesty.



'Botwm top a balog, a ffordd yna i'r llwyfan,' meddai Roy Griffith, trefnydd y côr.



Y Côr yn cynnal gwasanaeth a gosod torchau ar feddau Hedd Wyn ac O. Evans ym mynwent Artillery Wood, ger tref Ypres yng Ngwlad Belg.

Cig Bethel

Prisiau rhesymol am gig o safon.

Cymharwch y prisiau hyn â rhai'r siopau mawr

BİFF (y pwys)	PORC (y pwys)
Ochr Uchaf Gyfan.....£2.50	Coesau.....£1.45
Rymp Cyfan.....£2.95	Chops.....£1.80
Syrloin Cyfan.....£4.00	Tenderloin.....£3.50
Steciau Syrloin.....£4.50	
Steciau Rymp.....£2.95	CYW IÂR
Steciau 'T-bone'.....£4.00	Cyfan Ffres.....£0.95
Asen Flaen.....£2.10	Darnau Brest.....£2.35
Biff Stiwiw.....£1.90	
Mins Stêc.....£1.50	GAMON
	Steciau.....£2.10
CIG OEN	BECYN
Oen cyfan.....£1.25	Cefn Gorau.....£2.20
Coesau.....£2.50	Canol Gorau.....£1.90
Yswyddau.....£1.50	Coler.....£1.50
Chops.....£2.50	Ham wedi'i Rostio.....£3.30
Mins Oen.....£1.60	Sosej Ffres.....£1.50

Ffôn: (01248) 671170 • Symudol: 0468 452763

GWYNETH ROBERTS

84 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870491

CAFFI 'BWYTY ERYRI'
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION



Bara Ffres
Teisennau
Priodas, Bedydd
Pen-blwydd ac ati
Peis, Rholiau Sosej
Pasteiod, Teisennau Hufen
Teisennau Plât, Torth Gyrains ac ati

BECWS ERYRI

Stryd Fawr, Llanberis 870491

LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed. Ffôn: (01286) 677263

Plaid Cymru. Yng nghyfarfod blynyddol cangen Llanrug, etholwyd y swyddogion a ganlyn am 1997-98 — Cadeirydd: Phyllis M. Ellis; Is-gadeirydd: Paul Rowlinson; Ysgrifennydd: Olwen Llywelyn; Trysorydd: Meirwen Lloyd; Ysgrifennydd aelodaeth: Einir Gwyn; Ysgrifennydd y wasg: Llinos C. Davies; Trefnydd Clwb Cant: Geraint Jones.

Mae dau o'r aelodaeth wedi cael profedigaethau yn ddiweddar; estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i Cliff Williams, Afallon, Llanrug ar golli ei chwaer; ac i Carys Jones, Cae Eboni, Penisarwaun ar golli ei mam.

Bydd cyfarfod nesaf y gangen nos lau, Tachwedd 20 yn y Ganolfan, Penisarwaun, am 7.30 o'r gloch. Trefnir cwis gan Richard Lloyd Jones, Bethel, a byddwn yn croesawu ein cyfeillion o ganghennau Llanberis a Bethel i gystadlu. Bydd yn noson ddifyr ac mae croeso i bawb.

Nos Fawrth, Rhagfyr 2, cynhelir y Ffair Nadolig yn yr Ysgol Gynradd, Llanrug am 6.30 o'r gloch. Bydd Siôn Corn yno eto eleni. Fe groesewir unrhyw gyfraniadau i'r stondinau bwyd, teganau, ac eliffant gwyn ac i'r rafflau, a bydd yr Ysgrifennydd yn falch o bob cynnig i helpu — ffoniwch 650200.

Diolchiadau. Dymuna Mrs Lily Owen, 4 Cefn Elan ddiolch i'w thelu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau, blodau, anrhegion a'r galwadau ffôn a dderbyniodd tra bu yn yr ysbyty yn ddiweddar ac ar ôl dod gartref. Dymuna ddiolch hefyd i Dr Williams, Dr Roberts a Dr Helen Jones ac i staff Ward Glaslyn, Ysbyty Gwynedd, am eu caredigrwydd.

Dymuna Ellen Jones, Hafan Elan ddiolch o galon i bawb am yr holl gardiau, anrhegion, blodau a'r galwadau ffôn ar achlysur dathlu ei phen-blwydd yn ddiweddar. Diolch arbennig i Mr a Mrs Arthur Jones, 18 Hfan Elan. Diolch yn fawr iawn.

Cydymdeimlwn yn gywir â Mrs Anwen Owen, Dafydd ar plant, 11 Bryn Moelyn, a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth o golli tad a thaid annwyl iawn ym Mlaenau Ffestiniog.

Gwellhad buan i Mrs Catherine Owen, Erw Wen, Ffordd Glanffynnon sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Gwynedd.

Anfonwn ein dymuniadau gorau i bawb sydd heb fod yn dda eu hiechyd ar hyn o bryd.

Cydymdeimlir â Mr Alwyn Williams a'r teulu, Llwyfor ar farwolaeth ei chwaer Buddug Williams yn Ysbyty Bryn Seiont. Yr oedd wedi byw yn Llanrug gydol ei hoes, ar wahân i'r cyfnod y bu yn Neiniolen. Ers pedair blynedd yr oedd yn Nhyddyn Elan a chafodd gystudd hir. Rhoddwyd i orffwys ym medd y teulu yn Llanrug. Gwasanaethwyd yn y capel a'r fynwent gan ei nai y Parchg Elfed Williams a'r Parchg Dafydd Lloyd Hughes, ei gweinidog yng Nghapel y Rhos.

Merched y Wawr. Nos Fawrth, Hydref 14, estynnwyd croeso cynnes i bawb gan y llywydd, Bethanne Williams. Gwnaed elw o £315 tuag at canser y fron yn dilyn noson Ecstrafagansa gyda Ceri a Morus. Diolchwyd i'r aelodau fu'n casglu o ddrws i ddrws tuag at Ymchwil y Galon. Llongyfarchiadau i'r gangen ar ennill unwaith yn rhagor gyda'r Llyfr Lloffion. Y mae casgliad da o lyfrau gan y gangen bellach ac mae'n hynod ddiddorol cael cip yn ôl ar yr amrywiol weithgareddau yn achlysurol. Cytunwyd i gyrranu tuag at feicio noddedig Geraint a Meira Lewis Jones, tuag at Multiple Sclerosis. Llongyferchir holl bobl ifainc y fro ar eu llwyddiant yn yr



Bu cryn brysurdeb yn Llanrug yn ddiweddar pan fu ffilm o'r enw 'Y Ffrog Werdd' yn cael ei recordio yn y pentref. Bu nifer o blant yr ysgol gynradd yn cael eu defnyddio fel actorion ychwanegol (ecstras) ac roedd Emma Catherine Williams o'r pentref yn chwarae rhan un o'r prif gymeriadau. Bydd y ffilm i'w gweld ar S4C cyn y Nadolig ac mae hefyd yn debygol y caiff ei darlledu yn nifer o wledydd Ewrop. Yn y llun mae Wyn Bowen-Harries a Math Williams fu'n chwarae rhan dau o'r prif gymeriadau ynghyd â Angie Roberts o Llun y Felin.

amrywiol arholiadau yn ddiweddar a dymunir pob llwyddiant iddynt i'r dyfodol. Da deall fod Mary Roberts wedi gwella yn dilyn damwain car ac anfonir cofion at yr aelodau sy'n sâl ac i Eileen Thomas, Bron y Gaer, Penisarwaun yn dilyn ei thriniaeth yn yr ysbyty.

Gwestai'r mis oedd y llenor Eigr Lewis Roberts yn siarad am 'Y busnes sgwennu 'ma' o dan y teitl 'Llyfr a'r Llun'.

straeon am bobl penderfynol yn chwilio am rywbeth ac yn mynnu cyrraedd y nod, beth bynnag fo'r tâl amdano: 'Cymer a fynnot,' medd Duw / A thâl amdano.'

Ond cwbl wahanol, a rhwystredig efallai ar brydiau, yw sgwennu ar gyfer y sgrin. Mwynhaodd addasu 'Y Wist Sidan' gan Elena Puw Morgan ac er mai yn Saesneg y ceir brasluniau 'Pobol y Cwm' gobeithio y bydd yn dal i sgriptio am flynyddoedd eto ar gyfer y gyfres boblogaidd hon. Diolchwyd iddi am noson ddifyr dros ben gan Phyllis Elis. Diolchodd Mair Huws i Heulwen, Jean, Mary ac Ann am wneud y banded. Enillydd y raffl oedd Ann Thomas. Bydd y gangen yn dathlu'r Nadolig gyda bwffe yn y Bistro, Llanberis, Rhagfyr 9fed. Y mis nesaf edrychir ymlaen am noson ddifyr a hwyliog yng nghwmni Eira Wyn Huws gyda'i chasgliad bendigedig o gwiltiau. Croeso cynnes i aelodau newydd.

Ysgol Gynradd Llanrug. Croeso i Miss Elena Williams i'r ysgol fel gweinyddes feithrin, ac hefyd i Miss Emma Parry fel cynorthwydd.

Bu blwyddyn 1 a 2 ar ymweliad â Melin Llynnon, Llanddeusant, Môn fel rhan o'u thema ar fwyd. Cafodd y plant brofiad o weld hwyliau yn troi yn y gwynt a'r melinydd wrth ei waith. Cafodd y ddau ddosbarth groeso mawr hefyd ym Mecws Bryngwyn wrth weld y pobydd yno yn gwneud bara a theisenau. Diolch yn fawr iawn i Mr a Mrs Gardiner am y croeso.

Bu Emma Catherine Williams, blwyddyn 5, yn ffilmio'n ddiweddar. Mae'n cymryd rhan mewn ffilm o'r enw 'Y Ffrog Werdd' fydd yn cael ei darlledu yn y flwyddyn newydd.

Llwyddodd Martin Pritchard, blwyddyn 6, i ennill y wobr gyntaf mewn cystadleuaeth karate yng Nghaernarfon. Derbyniodd dlws gan y clwb karate.

Cafodd Dafydd Thomas gyntaf am nofio 16 hyd yng nghystadleuaeth Woodchest yng Nghaernarfon dan ofal y clwb nofio.

Bu genethod blwyddyn 2 yn cymryd rhan yn y ddawns flodau yn seremoni cadeirio yr Eisteddfod Bentref ac yn Eisteddfod Ysgol Brynrefail.

Gwesty Dolbadarn

LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser Aneuryn Jones a'r staff.

'Etifeddiaeth,' meddai, 'oedd rhoi y syniadau oedd yn corddi y tu mewn iddi, ar ffurf geiriau'. Roedd ei rhieni yn hoff o drin geiriau a hynny'n gyffrous iawn, adref ar yr aelwyd, ac felly chwe diwrnod yr wythnos bydd yn eu trin yn gelfydd am 10-11 awr y dydd. Bu'n olrhain sut y bu iddi ddewis teitlau ei nofelau — y teitl yw siop ffenest y llyfr ac felly'n holl wysig. 'Mis o Fehefin' — mis o Fehefin arbennig ym mywydau'r cymeriadau. 'Haf Bach Mihangel'; 'Ha Cogio Bach' nofel am dwyll yn union fel yr haf arbennig yma. 'Siwgr a Sbeis' — cyfrol o hanes bywydau merched arbennig; 'Merch yr Oriau Mawr' hanes Dilys Cadwaladr, un o Frynrefail yn wreiddiol, hithau yn myfyrio dros ei horiau cofiadwy. Teitl ei chasgliad o straeon byrion yw 'Cymer a Fynnot',

CLWB ERYRI

Yng nghyfarfod cynta'r Clwb ar nos Wener, Hydref 3, yng Ngwesty'r Victoria, Llanberis, estynnwyd croeso twymgalon i'r aelodau gan y llywydd, Cledwyn Pritchard Jones. Hyderai y byddai blas a llwyddiant ar ei flwyddyn yntau fel y bu yn amlwg yn ystod arweiniad ei ragflaenydd, J. Norman Davies, dros y tymor a fu. Llongyfarchodd hwnnw am a gafwyd a hefyd am ei llwyddiant arbennig yn cipio'r llawryf yng nghystadleuaeth cyfansoddi chwe erthygl addas ar gyfer papur bro yn Eisteddfod Genedlaethol y Bala, a hynny yn erbyn naw arall o safon. Dymunwyd adferiad llwyr a buan iawn iddo i'w lawn iechyd gan ei fod yn wynebu ar gyfnod o driniaeth mewn ysbyty.

Tristwch oedd piau'r eitem i ddilyn gan i un o sefydlwyr y Clwb a chymeriad ffraeth a sylweddol ei gyfraniad a'i ddaliadau ein gadael. Cyfeirio roedd y llywydd at farwolaeth Richard Jones, Abergele (cyn-Brifathro Ysgol Gynradd Deiniolen) yn gynnar yn ystod misoedd yr haf. Talwyd teyrnged gwbl addas a diffuant iddo gan yr unig un sy'n aros bellach o'r criw gwreiddiol, sef Rol Williams.

Ar nodyn hapusach, pleidleis-iwyd yn unfrydol i groesawu Eurwyn Griffith, Trefeddyg, Waunfawr yn aelod, a hyderid cael ei gwmni yng nghyfarfod nesaf y Clwb.

Diolchwyd i Ralph Jones am ei drefniadau trylwyr ar gyfer gwibdaith Mehefin eleni, ac i John Hugh Hughes am gydsynio i drefnu'r nesaf gan nad oedd mintai eiddgar o wirfoddolwyr eraill am achub y blaen arno.

Siaradwr y noson oedd y llywydd a gyflwynwyd yn gartrefol a diddan i'w gynulleidfa gan yr is-lywydd, Bobi Williams. Yn yr annerchiad, soniwyd am rai o atgofion dyddiau a fu o'r cyfnod cynnar yn ardal ei faboed yn Llanrug (yn arbennig anturus fenter sefydlu bysus bach y wlad gan ei deulu) at ei flynyddoedd



DRAENOG



Trafaelias y Byd ymhell o Bentref Bach Llan-ber ar un o Fysus Bach y Wlad yn breuddwydio am Draeth Bondai, ond Rhaid Deffro yn Awr, o glywed sŵn Tylluanod yng Ngwaun Cwm Brwynog, Mistar Pwy a Wyr.

diddorol fel disgybl yn Ysgol Ramadeg Brynrefail. Byr ond arwyddocaol iawn oedd ei sylwadau ar y cyfnod annedwydd a dreuliodd yn lifrai'r Awyrlu Brenhinol yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

Wedi trafodaeth a ffeirio aml stori o'r llawr, diolchwyd iddo ef a phawb arall a gyfrannodd at

lwyddiant y noson gan Wyre Thomas. I gloi, cyhoeddwyd bod cyfarfod nesaf y Clwb ar nos Wener, Tachwedd 7, yng Ngwesty'r Victoria am 7.30 p.m. pryd y ceid annerchiad gan Stanley Owen, Bontnewydd, gyda R. Gwynn Davies, Waunfawr yn y gadair.

IOLO HUWS-ROBERTS

NEWYDDION Y RHIFYN NESAF ERBYN NOS LUN, 17 TACHWEDD

Gwraig y Tŷ yn yr Ardd

Daw tristwch mawr wrth ffarwelio â'r haf ond mae'r potiau haf wedi eu clirio, a bylbiau tiwlip a chennin Pedr bach a mawr wedi eu plannu yn eu lle. Dau bot mawr yn y tŷ gwydr i flodeuo yn gynharach na'r rhai y tu allan yn y glaswellt. Mae'r blodau Mihangel yn y potiau hefyd yn barod am y tŷ gwydr — a braf fydd eu gweld yn ystod misoedd tywyll Tachwedd a Rhagfyr, ac efallai y bydd eu blodyn gwyn yn parhau at y Nadolig.

Cawn botiau bach o flodau Mihangel (chysanthemums) yn anrheg i'r tŷ gan ffrindiau — byddaf yn eu hail-botio i bot mwy. Gellwch, os mynnwch, eu plannu yn yr ardd. Maent yn tyfu'n uchel ond er hynny yn hardd, felly peidiwch â'u taflu. Fy hoff flodeuyn i at y Nadolig yw'r hyacinth (wedi'i dyfu mewn fibr arbennig) yn y tŷ a bydd ei arogl yn llenwi'r tŷ.

Bellach 'does gennym ddim i'w wneud on diolch am bopeth. Plannu rydym ni ond rhyw Allu Mwy sydd yn rhoi'r tyfiant.

Hwyl ichi hyd y gwanwyn.

LLECHEN I LWCSEMBWRG



Haydn Lewis o'r Amgueddfa Lechi, Llanberis, yn cyflwyno llechen maint fwyaf Chwarel Dinorwig i Doris Thilmann, Cynrychiolydd Amgueddfa Lechi Martelange Perlé, Lwcsembwrg.

Pa un o'r rhain sydd bwysicaf?

YSWIRIO EICH Tŷ (i arbed colled i chi);

YSWIRIO EICH CAR (i arbed colled i chi); neu

YSWIRIO EICH BYWYD (i arbed colled i'ch teulu)

Cysylltwch â'r isod i weld mor rhad yw cost yswiriant gyda CDH

Andre (Bethel/Llanberis)
Bryn (Môn)

Euryn (Caernarfon a'r cylch)
John Eifion (Penisrwaun)

CDH

Ymgynghorwyr Ariannol
Annibynnol Lleol (sefydlwyd 1974)

Ffôn: (01248) 355055



Harddwch eich cartref gyda

FFENESTRI

CELTIC WINDOWS



Sefydlwyd
1980

FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL

Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
Ffoniwch — 'dio'n costio dim i gael pris

(01286) 678618 (dydd)

(01248) 670081 (nos)



Uned 5, Griffiths Crossing
Llanfair-is-Gaer, Caernarfon



ORIEL CWM

Cwm y Glo

Ffôn/Ffacs: (01286) 870882

Gwasanaeth Fframio
Lluniau o bob math
ar gael ar y safle

Prisiau Rhesymol

Arddangosfa
o luniau gwreiddiol
gan Artistiaid Lleol

Richard S. Humphreys

Ar ben arall y lein . . .

Mae'n anodd gwneud pen na chynffon o sut mae'r tymhorau'n datblygu. Er enghraifft, heddiw'r 27ain o Hydref mae'r dail i'w gweld yn dechrau newid eu lliw, a hynny bron i dair wythnos yn hwyrach na'r disgwyl, ac eto rydym wedi cael barrug am bron wythnos, ers y 19eg o'r mis, a hynny tua naw diwrnod yn gynharach nag arfer. Rwy'n cadw cofnod o hyn gan fy mod yn gwneud *sloe gin* ac yn casglu'r eirin tagu wedi'r barrug cyntaf. Ffordd dda o gofio ynte!

Mae'n siŵr nad yw'r pysgod druan yn gwybod ai mynd ynte dod y maent chwaith. Er enghraifft, ar y Seiont mae pethau wedi bod yn araf iawn gydag ond 28 o eogiaid wedi eu dal drwy'r tymor. Naw mlynedd yn ôl daliwyd 386 ohonynt, ond roedd honno'n flwyddyn arbennig. Y flwyddyn honno, 1988, y gwelwyd problemau Llyn Padarn yn dod i'r golwg, ac mae'n broblem sy'n dal gyda ni. Does dim amheuaeth mai dyma sydd yn achosi'r dirywiad yn ein heog a'r sewin. A dweud y gwirwela i ddim bai ar y pysgod yma am beidio defnyddio Llyn Padarn i gael seibiant ar eu ffordd i fwrw eu grawn yn Afon Peris.

Rwy'n credu mai ansawdd y dŵr yw'r allwedd holl bwysig yma. I roi tipyn o sail dros ddweud hyn, gwelwn fel mae'r tymheredd yn gostwng bod yr 'algae' yn y llyn yn marw a'r dŵr yn clirio, a thrwy hyn gwelir yr eog yn gwneud ei ffordd o'r môr. Yr unig broblem yma, wrth gwrs, yw bod y tymor wedi darfod. Er mwyn ceisio cael rhagor o wybodaeth am hyn caniateir, ers dwy flynedd, fel arbrawf gan Asiantaeth yr Amgylchedd, i aelodau'r Clwb Lleol i 'sgota â phluen yn unig rhwng Pontrhythallt a'r môr. Ni fu'r tywydd yn rhy garedig yn 1997 a chafwyd llifogydd mawr, ond er hynny daliwyd 12 eog, a phob un ohonynt yn cael eu dychwelyd i'r afon.

Daw'r tywydd i rwystro'r arbrofion eleni eto, gyda

thywydd heulog clir nad yw'n dda ar gyfer 'sgota. Ond er hyn cafodd Trefor Jones, Nebo, eog 21.5 pwys o Crawia; 'sgodyn gloyw a'r trymaf i'w ddal yn yr afon ers amser. Cafodd hwn ei roi yn ôl yn y dŵr hefyd.

Dowch i ni gymharu'r Seiont â'r Llyfni. Mae'r Llyfni yn afon gymharol fechan, ond mae'n afon sydd heb lygredd ar ddechrau ei thaith tua'r môr. Cafwyd dros 50 o eogiaid a thros 400 o sewin eu dal arni y tymor hwn. Yr eog trymaf oedd un 16.5 pwys gan Maurice Craig o Lanllyfni a'r sewin trymaf oedd un 5.5 pwys gan Arthur Owen, Penygroes. Mae'r Llyfni yn un o afonydd gorau'r wlad, a bu cynrychiolydd un o'r cylchgronau pysgota mwyaf yma'n cael golwg ar ei dyfroedd. Dyma ei sylwadau: 'Oni bai bod y dyfroedd hyn mewn dwylo lleol, ni fyddai modd i bysgotwyr lleol fynd ar eu cyfyl heb dalu arian mawr.' Mae'n dda gweld nad yw ymdrechion y blynyddoedd a fu wedi bod yn ofer. Ond mae rhagor o waith eto i'w wneud i ddatblygu ein heiddo, ac rwy'n gobeithio gallu egluro rhagor am hyn y mis nesaf.

Yn ogystal â'r Llyfni mae'r Gwyrfaei wrthi'n cael ei gweddnewid. Does dim dwywaith nad yw'r gwelliant yn y dull o dynnu dŵr o Cwellyn o fudd i'r pysgod. Daeth nifer da o sewin i'r rhwyd. Cafodd Gwyndaf Jones, Bethel bedwar braf un prynhawn a daliodd Peter Greasley o'r Waun eog 8 pwys. Gwelais innau un prynhawn dipyn o bysgod yn dangos eu hunain o dan y bompren. Mae'r rhagolygon yma'n ardderchog.

Araf iawn fydd y llynnoedd tua diwedd y tymor fel arfer. Ac rwy'n siŵr petai tipyn mwy o ddefnydd wedi'i wneud o'r cychod ar Nantlle y byddai llawer wedi cael hwyl diguro wrth fachu eog o gwch, sy'n fath unigryw o 'sgota yng Nghymru a Lloegr. Bùm mewn cwch gyda Bryn Griffith, Caethro un prynhawn yn nechrau Hydref, ac

mi fachodd Bryn lwmp o eog. Bu'n ymladd ag o am tua pum munud cyn i'r 'sgodyn benderfynu iddo gael digon a thorri'n rhydd. Er mwyn cadw'r ddysgl yn wastad dyma rai a ddaliwyd ar y Seiont — H. B. Evans, Penbwlch: tri, a'r mwyaf yn 15 pwys; S. Carr, Bontnewydd: un am 15 pwys; Carl Hasson, Caernarfon (gynt o'r Felinheli): 4 y mwyaf yn 14.5 pwys; M. Harris, Y Felinheli: dau am 7 bwys; Maurice Jones, Penllyn: un am 8 pwys; D. Jones, Caernarfon: un am 9 pwys; G. B.

Jones, Llanrug: dau am 7 bwys; C. Hope, Caernarfon: un am 8 pwys; B. Japheth, Caernarfon: un am 5 pwys; ac M. Owen, Caernarfon: un am 8 pwys.

Am 8 o'r gloch, nos Fercher, Tachwedd 12, dechreuir dosbarthiadau clymu plu yng Nghanolfan Hamdden Caernarfon. Mae'r rhain yn nosweithiau difyr iawn. Dylech wneud ymdrech i ddod draw, yn enwedig y rhai ieuainc yn eich plith.

H. P. HUGHES

LLYTHYR ARALL O'R 'MERICA

Cambria,
Wisconsin,
January 23rd 1884

Annwyl Dad a Mam,

Yr ydwyf wedi derbyn eich llythyrau ers wythnosau bellach ac mae yn bur debyg fy mod i fy meio ychydig na buaswn wedi eu hateb yn gynt, ond y mae yn bur anhawdd gael digon o ddefnydd i ysgrifennu yn aml, gan hynny, dyna ychydig bach, diniwed, dros beidio ateb.

Y mae yn wir dda gennyf ddeall oddiwrth pob llythyr wyf yn ei dderbyn oddiyna eich bod chwi fel teulu yn teimlo mor gysurus, ac mor dda oddiwrth waeledd. Yr wyf yn deall nad felly y mae gyda phawb yna, fod angeu yn methu gadael yn llonydd i laweroedd o rai anwyl gan eu perthnasau. Yr oedd yn ddrwg iawn gennyf glywed am farwolaeth fy hen gyfaill Robert Caerfran. Yr oeddwn rhywfodd yn methu a chredu y newydd, ond yr oedd yn rhaid gwneud. Yr oedd yr olwg ddiweddaraf arno yn dod yn fyw i fy meddwl ar amrantiad, sef y noswaith cyn i mi gychwyn oddiyna. Nid wyf yn meddwl fod gan neb ddim yn isel i ddweud am Robert. Yr oedd yn un o'r rhai mwyaf gwir agosaf i'w le o neb y bum i yn siarad a hwynt erioed. Nid am bob peth y siaradai chwaith fel rhai. Yr oedd llawer yn camgymryd amdano, trwy feddwl nad oedd fel pawb arall, ond camgymeriad hollol ydoedd hynny. Y mae yn bur debyg fod y teulu yn teimlo yn ddrwg iawn o'r herwydd. Yr oeddwn wedi addaw cyn cychwyn ysgrifennu attynt. Y mae yn bur debyg y gwnaf cyn hir.

Yr oedd yn syn iawn gennyf glywed am farwolaeth R. Parry hefyd. Dyna golled anghyffredin i chwarelwyr Llanberis, ond nid yw cyfan o'r marwolaethau yna yn ddim ond rhybydd i'r rhai sydd yn ol, ein bod yn cerdded ymlaen i gyfarfod yr un amgylchiadau, ac mai dyna fydd ein hanes ninnau sydd sicr iawn.

Derbyniais llythyr oddiwrth Wm. tua 3 wythnos yn ol, ac yr wyf wedi derbyn un Janett heddyw. Yr oedd un Janett yn llawn anghyffredin o newyddion o'r dechreu i'r diwedd, yn ddim ond newyddion. Y mae yn hawdd gwybod ei bod wedi gwella yn

all right, oddiwrth ei llythyrau.

Yr oeddwn yn deall eich bod wedi cael gwyliau cysurus yna, gallaf innau ddweud yn gyffelyb. Bum dydd Nadolig gyda Tom yn y cutter, neu sledge fechan — lle i ddau — yn Portage Prairie, yn y Gymnafa ganu. Y mae yn rhaid i mi beidio dweud ychwaneg yn y llythyr yma o'i hanes onide ni fydd gennyf ddefnydd llythyr i Wm.

Clywais John Rowlands yn dweud ei fod wedi cael llythyr da anghyffredin oddiwrthych. Yr oedd yn falch iawn ohono. Bum yno yn fy swper nos Sul. Yr oedd yn dweud ei fod am ysgrifennu atoch cyn gynted ag y gall, ac hefyd ei fod am anfon ei ddarlun yna hefyd gydag ef. Gallaf eich hysbysu, na welais well darlun o neb erioed. Y mae y goreu o lawer iawn o'r un a welais etto. Y mae fel pe bai yn fyw. Cafodd ei dynu yn Madison pan oedd yno fel aelod dros y County.

Nid wyf wedi taro ar neb etto yma a chymaint o ddyddordeb ganddo yn hanes yr hen wlad. Ni fyddaf 3 munud yn ei gwmni na bydd yna ar darawiad, ac mi wnaiff ymgomio am oriau am dani. Yr wyf yn sicr y cewch hanes llawer iawn a adwaenwch ganddo.

Yr oeddynt yn claddu merch y diweddar Hugh Morris, Fachwen, yr wythnos o'r blaen. Yr oedd yn byw gyda'i mham yn Proscairion, ychydig o ffilltiroedd oddiyma. Y mae ei mham wedi priodi yr hen Dafydd Cydwalad, ond y mae ef wedi marw ers blynyddoedd.

I ba gwr o Dakota y mae John Parry yn myned? Dywedwch wrthyf a rhoddwch fy directions iddo.

Yr oedd yn dda gennyf glywed fod Eliza wedi llwyddo mor dda gyda'i dosbarth, ond yr oedd yn ddrwg gennyf glywed un peth arall sef ei bod wedi dechrau talu am ei lodging. Hen dro, ynte Eliza.

Wel y mae yn rhaid i mi dynu am y terfyn gan ddisgwyl y bydd y llythyr yma yn eich cael fel ag yr oedd y lleill yn ei gadael chwi. Derbyniwch fy nghofion caredig oll fel teulu.

Ydwyf eich mab,

OWEN

Cofiwch fi at Mr a Mrs Jones, Tŷ nesaf.



Ar agor Llun - Gwener
9.00 a.m. - 4.00 p.m.
Ffôn: (01286) 650721



WAUNFAWR

COFIWCH archebu eich Pwdin a Chacen 'Dolig cartref a briwggig ffres o'r siop. Mae llu o anrhegion Nadolig arbennig hefyd ar gael yn y siop wedi eu cynhyrchu gan Antur Waunfawr.

NEWYDDION: Mae Gwasanaeth Ailgylchu Gwynedd wedi agor Canolfan Ailgylchu newydd ym Methel mewn partneriaeth â Chyngor Gwynedd.

Mae gwaith ein artist preswyl, David Lloyd, nawr i'w weld o amgylch y Parc Natur. Bydd y cerfluniau coed hefyd i'w gweld ar y rhaglen 'Sioe Gelf' yn y dyfodol agos ar ôl iddynt fod yn ffilmio yn y Parc yn ddiweddar.

CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA



Cyrhaeddwch mewn steil — mewn cerbyd **Rolls Royce** ar gyfer priodasau, penblwyddi ac achlysuron arbennig eraill

Dylan Griffith, Tros-y-Waen, Penisarwaun
Ffôn: (01286) 871833

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

Camera yn ngofal Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl. Ffôn: (01248) 670115



Plant Ysgol Sul y Cysegr yn eu gwasanaeth diolchgarwch.

Llongyfarchiadau i Gethin Williams, Arfon House ar gyrraedd ei ben-blwydd yn ddeunaw oed ar Hydref 29.

Merched y Wawr. Dr Stephen Mack-Smith o Fangor oedd gŵr gwadd y gangen yng nghyfarfod mis Hydref a chawsom noson ddifys yn egluro Ceiropracteg. Diolchwyd gan Elizabeth Evans. Croesawyd Sian Hughes yn ôl fel aelod o'r gangen. Yn bresennol hefyd roedd Mena Jones, Swyddog Datblygu'r Gogledd a chaed anerchiad byr ganddi. Llongyfarchwyd Non Llywelyn, merch Alys Jones, oedd yn gyfrifol am gerddoriaeth y ddrama 'Siwan'. Da oedd deall fod Bethan, merch Gwyneth Jones, wedi cyrraedd adref yn saff wedi crwydro Canada a'r America. Cydymdeimlwyd â Nan Rowlands a'r teulu wedi dwy brofedigaeth a dymunwn adferiad buan i Sheila Roberts. Enillydd y raffl oedd Delyth Williams. Y gwest-wragedd oedd Alys Jones, Rhian Hughes ac Ellen Ellis. Mae'r gangen wedi cael gwahoddiad i ymuno â'r gynulldeidfa yn Stiwdio Barcud nos lau, 13 Tachwedd i ffilmio'r rhaglen 'Pwy 'di Pwy?' Croeso i unrhyw un o'r pentref gael tocynnau — cysylltwch â June Owen ar 670754. Bydd côr y gangen yn aildechrau'n fuan, dan arweiniad Deilwen Hughes, i baratoi ar gyfer gwasanaeth blyneddol y gangen a gynhelir yng Nghapel y Cysegr nos Sul, Rhagfyr 20fed. Bydd y casgliad eleni yn mynd at Dŷ Enfys, Ysbyty Gwynedd. Bydd y gangen yn

cyfarfod nesaf yn yr Ysgol Gynradd nos Fercher, Tachwedd 12fed gyda sgwrs gan Vincent Hughes, 'Y stori tu ôl i'r tacla'.

Eisteddfod Bentrref Bethel

Nos lau, Tachwedd 6 yn y Neuadd Goffa bydd noson o ddawnsio gwerin a disgo. Beirniaid fydd Judith Harding, Penisarwaun a Miriam Thomas, Bethel. Tâl mynediad: oedolion 50c.

Nos Wener, Tachwedd 7: Gwaith Celf a Chrefft i'r Neuadd rhwng 4 a 5.30 p.m. Bydd cyfle rhwng 7 a 7.30 p.m. i weld yr arddangosfa. Pris mynediad fydd 20c.

Sadwrn, Tachwedd 8: Yr Eisteddfod Bentrref am 1 a 6 o'r gloch. Pris mynediad £1 i bob cyfarfod. Plant ysgolion uwchradd: 20c.

Testun y gystadleuaeth siarad cyhoeddus yw — 'Genod ydi'r gora, medda nhw!' Brawddeg o'r gair 'PONTARFYNACH', sy'n agored i bawb, i fod yn llaw yr Ysgrifennydd erbyn 31 Hydref, ynghyd â Llên Uwchradd.

Byddai Mrs Sheila Ffoulkes, Tyddyn Gwndwn yn croesawu unrhyw nwyddau neu wobrau tuag at y rafflau.

Enillwyr Clwb 200 y Neuadd Goffa am fis Medi — £20: Eileen Griffiths, Ivy Cottage (190); £10: Ann Mercer, Roslyn, Tan-y-ffordd (165); £5 yr un: Katherine Jones, Y Ddôlwen (21); Geraint Elis, Cilgeran (97); Dennis Harrison, Bakhita (181); Wyn Morris, Fachell (136); Aled F. Roberts, Cefn-y-gwynt (50); Caron L. Jones, Stryd y Farchnad, Caernarfon (209); Llinos

Williams, Hafod (66); William Parry, 11 Tan-y-buarth (129).

Eisteddfod Ysgol Brynrefail. Roedd yn galondid gweld cynifer o ieuencid y pentref yn cymryd rhan ar lwyfan Ysgol Brynrefail yn yr Eisteddfod Ysgol yn ddiweddar. Enillydd y Gadair i'r rhai hyn oedd Bethan Williams, Tan-y-buarth, gydag Eleri Robinson, Bron Gwynedd yn ail; a Meilyr Emrys, Cefn Cynrig, ac Anest Williams, Y Ddôl, yn drydydd. Owain Sion Williams, Y Ddôl oedd enillydd y Gadair i'r disgyblion iau.

Cyflwynwyd tarianau i'r canlynol: Eleri Robinson, Bron Gwynedd am yr adrodd gorau, ac hefyd am ennill y mwyaf o farciau yn yr adran hyn, Dewi Griffiths, Llwyn Eithin am yr offerynnwr gorau, ac i Lois Hughes, Erddig, am ennill y mwyaf o farciau yn yr adran iau. Llongyfarchiadau i bawb oedd yn gysylltiedig â llwyddiant yr Eisteddfod.

Dyweddi. Llongyfarchiadau i Nia Davies, Hafan Deg ar achlysur ei dyweddiad â Mr Dylan Pritchard.

Yr Ysgol Gynradd. Llongyfarchiadau i holl blant yr Ysgol am gasglu

£701.28 at apêl NSPCC. Hwn oedd casgliad anrhydeddus Diolchgarwch yr Ysgol. Cymerodd holl blant yr Ysgol ran yn y gwasanaeth Diolchgarwch fore Gwener, 17 Hydref. Cynhelir y Ffair Lyfrau yn ystod wythnos 24 Tachwedd. Mae modd prynu stampiau yn yr Ysgol.


Cymdeithas Rhieni / Athrawon. Nos Fercher, 5 Tachwedd, bydd y Gymdeithas yn trefnu noson o Ddân Gwyllt, cŵn poeth, diod a chreision, yn yr Ysgol. Edrychwch allan am y posteri fydd yn rhoi mwy o fanylion.

Cynhelir y Ffair Nadolig nos Wener, 12 Rhagfyr, dan nawdd y Gymdeithas yn yr Ysgol.

Gobeithir trefnu disgo i'r plant nos Fercher, 17 Rhagfyr, yn yr Ysgol.

Llongyfarchiadau a phob bendith i Trevor a Nancy Williams, Rhos-lyn ar ddathlu eu priodas aur ar Dachwedd 8fed.

Llongyfarchiadau i Sioned Davies, Garth ar ennill Cwpan Morgan Evans fel prif lenor Eisteddfod Penisarwaun, a'r wobwr gyntaf ar bump o wahanol gystadlaethau eraill.



Dewi Griffiths, yr offerynnwr gorau yn Eisteddfod Brynrefail.



Eleri Robinson, yr adroddwraig orau yn Eisteddfod Brynrefail.

BWS BACH AR LOG

Bws 22 sedd ar gael ar gyfer pob math o logi preifat — nosweithiau allan, partïon, triapiau ac ati. Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan

D. P. OWENS

RHIWLAS

01248-361044



I drin a thrwsio
pob math o
beriannau gwnïo
**MENAI SEWING
MACHINE CENTRE**
40 Stryd Fawr
PORTHAETHWY
Ffôn: (01248)
714043 neu
(01286) 674520
Edau, Nodwyddau
ac ati mewn stoc

Royal Victoria Hotel



LLANBERIS



Mae'r gwesty yn darparu ar gyfer Priodasau,
Partïon, Dathliadau ac Achlysuron Arbennig

Cyfleusterau Cynhadleddau a Phwyllgorau

Bwydlen Bar a Chinio Dydd Sul

Cwrw Felin Foel

Ffôn: (01286) 870253

Wavell Roberts CIGYDD

London House
LLANRUG

Ffôn: (01286) 673574

PEN CIGYDD Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref

Cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist
MYNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!

RHAG-GLYWED gan Y GWALCH

Saffron oedd ei henw hi — yr hoga, am ei bod hi wedi ei geni ar ochr y ffordd am y clawdd a chae o grocys, pan oedd ei thylwyth ar eu taith flynyddol gyda'u ceffylau a'u 'vados', o Birmingham i lawr i Ddyffryn Evesham am yr haf, i hel y cnydau.

Roeddent yn osgoi dinas Worcester drwy droi oddi ar ffordd Droitwich yn Martin Hussingtree, a theithio ar hyd y Pershore Lanes, heibio i goed Spetchley a'r Withy Wells, sydd bellach wedi cael eu difrodi gan y draffordd M5 sydd yn gwanu'r ardal hudolus honno a oedd unwaith mor dawel; ardal y palasau bychain hanner coediog du a gwyn, o oes Elisabeth y Cyntaf, ac yn eu plith, Huddington Court, lle y deorwyd y cynllun i chwythu Tai'r Senedd yn Llundain, a'r lle y dywedir i'r Arglwyddes de Wintour fod yn crwydro'r lawntiau o hyd yn ei mantell las.

Roedd gan y Sipsiwn yma dynfa ddiatal at y Withy Wells, ac nid rhyfedd hynny. Roedd dŵr y ffrwd yno a'r pwll bob amser mor fywiog a glân, ac ynddynt dyfiant o ferw dŵr, a brithyll. Roedd yno hefyd lannerch agored yng nghysgod yr helyg, delfrydol i dario am ddiwrnod neu ddau.

Doedd yna ddim byd arbennig yn ymddangosiad allanol Saffron mwy na rhyw eneth arall i'w rhoi ar wahân, ond yr oedd yna ryw elfen anelwig yn ei gosodiad yn denu chwilyfrydded. Roedd hi tua dwy ar bymtheg yr adeg honno, ac yn mynnu fod ei phobl a minnau wedi ein tyngedu i groesi ein llwybrau y gwanwyn hwnnw ger y Withy Wells, ac i bwysleisio ei daliadau, adroddodd yr hen alegori honno am y meistr a'r gwas, a synnais ei chlywed yn cael ei hadrodd mor gywir o enau Sipsi fach felly, gan fod cymaint o'r llwyth yr adeg honno yn anllythrennog. Ond wrth gwrs mae rhywun yn dysgu rhywbeth newydd bob dydd, ac o'r cyfeiriad mwyaf anhebygol mae yn dod yn aml.

Marsiandwr o Ddamascus a anfonodd ei was i'r 'souk' ar neges. Dychwelodd y dyn fodd bynnag mewn braw yn waglaw.

'Moes i mi dy geffyl,' meddai wrth ei feistr, 'fel yr elwyf i Zamora ar unwaith.'

'Pam yr ei i'r fan honno, a beth ydyw dy frys?'

'Gwelais Angau yn y 'souk' a

rhoddodd hergwd i mi wrth fynd heibio. Rwy'n dymuno mynd cyn belled ag y medraf oddi wrtho.'

Wrth weld arswyd ei was, cyfrwyodd y marsiandwr ei geffyl a'i roi iddo. Carlamodd yntau am Zamora nerth carnau.

Yn ddiweddarach aeth y meistr ei hun i lawr i'r 'souk' ac yr oedd Angau yn dal i fod yno ymysg y stondinau. Aeth ato a gofyn.

'Pam y rhoddaist fraw i'm gwas gynnu?'

'Nid fy mwriad oedd ei ddychryn,' atebodd Angau. 'Yn hytrach, efe a roddodd syndod i mi.'

'Sut hynny?'

'Ei weld yma y bora, a chan innau drefniant i'w gyfarfod y prynhawn yn Zaomora.'

Roedd Saffron hefyd yn hynod o sylwgar ar fanylion anian. Roedd hi wedi canfod ymchwydd fechan ysbeidiol yn ffrwd y Withy Wells, a hynny trwy wyllo cyrlen fechan yng nghanol yr afon a oedd yn codi a gostwng y mymryn lleiaf mewn cyfnod o rhyw ddeng munud, a hynny heb unrhyw reswm amlwg o gwbl. Roedd hi'n gwybod hefyd bron i'r diwrnod yr adeg y buasai dail cwymp yr hydref yn rhoi blas ar y dŵr fel te merfaidd, fel yr oeddent yn dychwelyd ar ddiwedd y tymor ar eu taith yn ôl i'r Kaulo Gav (y dref ddu). Ond erbyn hynny, roedd hi'n wybyddus i'r frawdoliaeth, fod Saffron yn gallu rhagweld, neu yn hytrach rhag-glywed digwyddiadau yn y dyfodol, a'r rheiny bob amser o natur ddinistriol. Ond yr oedd hi'n eneth anfoddlawn iawn hyd nes y deuai dehongliad.

Byddai yn clywed y synnau hyn amryw o weithiau, ac ar adegau, yn aml. Mae'n siŵr fod y profiadau ymhen amser yn tarfu ar ei hynni nerfol. Dywedid iddi unwaith glywed pren yn torri, ac yna sŵn cloch o faint yn toncio unwaith neu ddwy fel cnul, gweryriad ceffyl a llais ei brawd yn gweiddi rhybudd, a daeth ystyr hynny i'r amlwg yn fuan.

Yr oeddent yn teithio gyda'i 'vados' yn un rhes gerllaw Droitwich. Roedd Saffron yn cerdded y tu ôl i'r garafan hefo'r plant fel y byddai'r arfer, ac yna yn sydyn clywyd yr un twrf ag a ddaroganwyd iddi: y glec, y gloch, y gweryriad, a'r waedd.

Roedd camog un o'r olwynion wedi torri, a syrthiodd y cylch haearn yn glewt ar y ffordd galed gan wneud

sŵn fel cloch eglwys, gweryrodd y ceffyl yn ei fraw, a chlywodd ei brawd yn gweiddi arni gadw yn glir â'r garafan gan fod honno ar ogwydd.

Man arall yr arferent aros yn y dyffryn oedd White Ladies Aston, lle y goddefid iddynt gan leianod y cwfaint i fynd i'r berllan i hel afalau cwymp ar ddiwedd y tymor a chael dŵr. Ar ôl cyrraedd yn ôl i'r cytir yn Birmingham y tymor hwnnw, clywai Saffron yn ddibaid sŵn cadwyn yn dirwyn yn gyflym, ynghyd â gwaedd merch, a splas mewn dŵr. Ni ddaeth arwyddocad iddi fodd bynnag hyd y gwanwyn dilynol pan oeddent yn aros gerllaw'r White Ladies.

Clywyd fod un o'r lleianod ieuanc — y chwaer Sophie — y newyddian, wrth godi dŵr o'r pydew hefo'r gadwen a'r windlas, wedi syrthio i mewn ac wedi cael ei llesteirio gan ei gwisg, nes iddi fodd cyn i neb allu dod i'w chymorth.

Ond i'm gwybodaeth i, chafodd Saffron ddim eglurhad am y glywedigaeth honno a gafodd yng nghoed Spetchley un min nos o wanwyn pan oeddent yn aros y tymor hwnnw wrth y Withy Wells.

Roedd hi'n hoffi ei chwmmi ei hun, Saffron, a'r min nos arbennig hwnnw yn y llwydwyll, yr oedd hi wedi mynd i rodio i goed Spetchley, ac yn sydyn, mewn lannerch, daeth i'w chlyw sŵn a oedd yn ferwinder diatal i glust mor fain. Roedd y sŵn yma yn debyg meddai hi i anifeiliaid rheibus yn chwympu, ac yn mynd a dod un ar ôl y llall, ac yn eu mysg rhyw udo ysbeidiol fel o gyn rhyfel, ac yr oedd yr oll fel pe ban yn danddaearol.

Pan ddychwelodd hi i'r Withy Wells, yr oedd mewn cyffro

anarferol, achos yn ei thyb hi, yr oedd y profiad yn ddaroganiad o ddinistr i'r holl lwyth ac yn debygol o'u difetha.

Credu wnes i ei bod hi efallai y tro hwnnw wedi clywed rhywbeth o'r gorffennol; sŵn brwydr efallai, gan fod amryw o ysgamesoedd wedi bod yn yr ardal honno rhwng y Pengryniaid a gwyr y brenin yn adeg Cromwell.

Nis gwelais byth wedyn, yr un ohonynt na chlywed am eu hynt. Ond ymhen rhyw ddeugain mlynedd â mi yn teithio i Ddyfnaint, troais o'r neilltu i'r Pershore Lanes o ran chwilyfrydded i gael golwg ar yr hen ardal, ond camgymeriad oedd o. Ddylai neb byth fynd yn ôl meddai'r doethor. Gwareddwyd fi gan y newid.

Gadewais y cerbyn ysbaid i lawr y ffordd a cherddais hyd at ganllaw'r bont oedd ar gamfa-led y draffordd newydd. Roedd ei llwybr mi welwn wedi hollti coed Spetchley ac nid oedd sôn am y Withy Wells, ac wrth wyllo'r cerbydau'n chwympu oddi tanaf a chlywed eu berwinder yn gymysg â chorn ambell deithiwr diamynedd, cefais innau weledigaeth sydyn.

Tybed mai sŵn y draffordd a oedd i ddod ymhen yr holl flynyddoedd i ddifetha ei bywyd a'i theulu a glywodd Saffron y min nos gwanwynol hwnnw yng nghoed Spetchley pan oedd y fan honno yn ddifrycheulyd?

**Cefnogwch
ein
Hysbysebwy**

Gwasanaeth o'r Safon Uchaf am Brisiau Rhesymol



Gwasanaeth Trylwyr
gan y bobl **BROFFESIYNOL**
Gwasanaeth Personol Cyfeillgar i CHWI
Y Gwasanaeth Technegol Gorau
i'ch **CAR**. Cystal â
Gwasanaeth Prif Ddeliwr
Felly, pa gar bynnag ydych
CHWI yn ei yrru,
o Audi i Zastava

bydd ein Gwasanaeth
ni yn arbed **£££** ichwi
ac yn ymestyn oes eich car



Car neu Fan
Petrol neu Disel
Carb. neu Chwistrelliad



-AVW- YSTAD CIBYN

CAERNARFON (01286) 673559

IEUAN WILLIAMS Glanffrwd DEINIOLLEN

(01286) 870484

- ★ Bysiau o 12 i 53 sedd
- ★ Teithiau Lleol a Thramor
- ★ Gwaith Contract
- ★ Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol.

AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL
A RHAD YM MHYDAIN A THRAMOR ...



BYSIAU ARFON LLANRUG

(Eric Morris)

Ffôn: (01286) 675175 a 677858

OSMOND SHAW DEINIOLLEN



GWERTHU
- TRWSIO

- ★ Teledu ★ Fideo
- ★ Offer Trydan

Gwasanaeth Ffôn 24awr
(01286) 870545

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. 870580

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

Priodas Rhuddem. Llongyfarchwn Mr a Mrs Derek Williams, Bron Eilian ar ddathlu ohonynt eu priodas rhuddem. Deallwn nad yw Derek wedi bod yn rhy dda ei iechyd yn ddiweddar. Gobeithwn y gorau i'r ddau i'r blynyddoedd a ddêl.

Bedydd. Ddydd Sul, 5 Hydref, bedyddiwyd Tomos Derek, mab Colin a Shirley Humphreys, Gwêl-y-Wyddfa, yng nghapel Bethel. Yn gwasanaethu roedd y Parchedig Gwynfor Williams. Y mae Tomos yn ŵyr i Mr a Mrs Derek Williams, Bron Eilian ac i Mr a Mrs Danny Humphreys, Tregof, Bethel, a brawd bach i Mererid. Daeth rhai o'r teulu a ffindiau ynghyd i fod yn dystion i'r bedydd.

Dathlu Pen-blwydd. Llongyfarchiadau i Hannah Boothroyd, Tŷ Newydd Cottage ar ddathlu ei phen-blwydd yn ddeunaw oed. Dymuniadau gorau iddi i'r dyfodol.

Diolch. Dymuna Dilys a Derek, Bron Eilian, ddiolch yn gynnes iawn i bawb am eu caredigrwydd, y cardiau a'r anrhegion a dderbyniasant ar ddathlu eu priodas rhuddem.

Eglwys Santes Fair. Erbyn y daw'r Eco o'r wasg fe fu y gwaith o sefydlu Capel yn Eglwys Crist Llandinorwig wedi ei gwblhau. Bu'r Agoriad Swyddogol ddydd Sul, 19 Hydref. Cynhwysa'r Capel nifer o greiriau o'r hen eglwys fach sydd a'i drysau ynghau bellach ers tair blynedd. Nid oedd yr Esgob am weld hen gadeiriau yn cael eu rhoi yn y capel newydd ac fe hysbysebwyd fod croeso i'r ardalwyr brynu cadeiriau newydd er cof am anwyliaid a fu'n aelodau o Eglwys y Santes Fair. Drwy hyn fe welwch fod y mwyafrif o'r cadeiriau yn y Capel yn rhoddedig ac yn dwyn i gof am aelodau ffyddlon yr eglwys yma yn Ninorwig. Aelodau na fydd byth yn angof.

Y Ganolfan. Nos Iau, 2 Hydref bu cyfarfod cyhoeddus yn y Ganolfan gyda Mr David Lloyd Hughes yn y gadair. Prif bwrpas y cyfarfod oedd derbyn awgrymiadau ar sut i wneud mwy o ddefnydd o'r adeilad. Pasiwyd i gael parti Nadolig i'r ardalwyr yn y Ganolfan ar y 12fed o Ragfyr ac mae pwyllgor wedi'i ethol i ofalu am y trefniadau. Bydd mwy o fanylion yn y rhifyn nesaf o'r Eco.

Pasiwyd i gynnal Eisteddfod yn

ystod mis Mawrth ac eto fe ddaw'r manylion fel y bydd y trefniadau'n cael eu cwblhau.

Pasiwyd i newid y tâl logi'r Ganolfan. O 1 Tachwedd y tâl fydd £5 am y ddwyawr gyntaf ac yna £3 yr awr am amser ychwanegol. Bydd yn ofynnol i bawb dacluso ar holau.

Gan fod amryw o fân bethau y byddai'r pwyllgor yn falch o'u gwneud y tu mewn i'r adeilad fe fyddent yn ddiolchgar iawn i dderbyn unrhyw rodd tuag at gyflawni'r gwaith hwn.

Bydd y cyfarfod nesaf yn y Ganolfan, nos Iau, 30 Hydref am 7.30 o'r gloch.

Y Gymdeithas Undebol. Dyma fydd y rhaglen am fis Tachwedd — Nos Iau, 6 Tachwedd (yn y Ganolfan): bydd y noson yng ngofal Mr John H. Hughes, Llanberis. Nos Fercher, 19 Tachwedd: noson gan Y Parchg Gwyn Erfyl, Bangor.

Os nad ydych wedi cael rhaglen y tymor cysylltwch â Mrs Betty Peris Roberts neu Miss Marian Jones. £1 yw pris y rhaglen am y tymor.

CAEATHRO

Symud Tŷ. Ar ôl gwerthu ei fyngalo, Y Bwthyn, mae Carol Higgins wedi symud dros dro i dŷ Eric a Beryl Roberts ar Stad Erw Wen. Deallwn y bydd Carol yn gadael ein cwmni cyn hir gan symud i Lanfairfechan.

Gwasanaethau'r Capel. Disgwylir y canlynol i wasanaethu yn ystod mis Tachwedd:

- 2: Parchg. W. R. Williams (2)
 - 9: Parchg Huw John Huws (2)
 - 16: Mr Richard Jones (2)
 - 23: Parchg W. R. Williams (2)
 - 30: Parchg Ronald Williams (2)
- Plygu'r Eco.** Braint trigolion Caeathro

yw plygu'r Eco ar nos Iau, 27 Tachwedd.

Talent y Pentref. Braff oedd gweld lestin llwyd, mab Einir ac Arwyn Williams, Y Wern yn chwarae rhan Alun yn y cynhyrchiad o gomedi dywyll Dan Shepherd 'Tua'r Gorllewin' yn Neuadd J.P. yn ddiweddar. Roedd ei berfformiad yn un grymus a chryf mewn drama anodd.

Ymdeoliad. Braff nodi fod Beryl Williams, gynt o Erw Wen, wedi ymddeol fel athrawes ym Mangor. Fodd bynnag, mae ganddi swydd newydd llawn-amser fel gwraig i Ficer Pen-y-groes a Llanllyfni.

DINORWIG

Miss Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig. 870292

Camera yng ngofal Valmai Williams, Hafle, 2 Rhos Faenol Ffôn: 871174

Genedigaeth. Llongyfarchiadau i Islwyn a Rhian Jones, 3 Trem Eilian ar ddod yn daid a nain unwaith eto. Ganwyd merch ar Fedi 29ain i Marian a Michael Christie, 97 Gallt y Sil, Caernarfon. Croeso mawr i Shanon Lloyd hefyd gan ei hen nain Hannah J. Jones, 7 Trem Eilian.

Cymdeithas y Chwirydd. Bu cyfarfod olaf tymor 1997 o'r Gymdeithas yn y Ffestri nos Iau, Hydref 11eg dan lywyddiaeth Mrs Verna Jones. Cymerwyd at y rhannau arweiniod gan Einir Gwyn.

Siaradwr gwadd y noson oedd Mr Richard Lloyd Jones, Bethel. Treuliwyd orig hwyliog a diddorol yn ei gwmni yn olrhain ei fagwraeth, ei yrfa a'i ddiddordebau. Diolchwyd iddo gan Mrs Ellen George. Trefnwyd y lluniaeth gan Mrs Dwynwen Williams a Mrs Verna Jones. Anfonwyd cofion yr aelodau at Mrs Gwyneth Evans, Ty'n Buarth a oedd wedi'i chipio i'r ysbyty unwaith yn rhagor.

Ar y terfyn trafodwyd y rhaglen am 1998 a diolchodd Mrs Jennie

Hughes yn gynnes i'r swyddogion am eu gwaith a chyfraniad yr aelodau yn ystod y tymor presennol.

Cofion. Anfonir ein cofion at Mrs M. Closs Parry, Bryniol, Mrs Gwyneth Evans, Ty'n Buarth a Mr Norman Williams, Godre'r Coed sydd wedi treulio cyfnodau dan archwiliad yn Ysbyty Gwynedd. Dymunwn wellhad buan i'r tri ohonoch.

Yr Wyl Ddiolchgarwch. Cynhaliwyd oedfa o ddiolch yn Eglwys M.C. Brynrefail bnawn Sul, Hydref 12fed. Seiliwyd y gwasanaeth ar Apêl Eglwys Bresbyteriaid Cymru Deheudir Affrica — 'Law yn Llaw' a pharatowyd y sgript gan Lowri P. Roberts Williams. Cymerwyd rhan gan Hefin ac Ifanwy Jones, Einir Gwyn, Maurice a Verna Jones, Jennie Hughes, Betty Owen, Dwynwen Williams, Richard W. Evans, Emyr Williams, Jennie A. Roberts, Lowri P. Roberts Williams a Dafydd Ellis. Cafwyd cyfraniad gan blant yr Ysgol Sul — Dylan Davies, Caryl ac Awen Jones, Rhian George, Ellen Williams yn cael eu cynorthwyo gan Mair Davies, Eleanor Jones, Amy Lambert a Ellen George. Hysbysodd y llywydd, Mrs J. A. Roberts, fod Cymdeithas y Chwirydd wedi cyflwyno rhodd hael i lansio'r apêl 'Law yn Llaw' yn lleol. Dosberthir amlenni os dymunwch gyfrannu'n unigol gan Mr Gwyn Hefin Jones, Rhandir (870848).

Sefydliad y Merched. Cyfarfu'r gangen nos Lun, Hydref 21ain dan lywyddiaeth Pat Jones. Croesawyd Mrs Gwenllian Roberts a'i ffrind i'r cyfarfod i arddangos gwaith 'Decoupage'. Cafodd rhai o'r aelodau gyfle i ymarfer y ddawn yn ystod y noson. Paratowyd y te gan Gwawr Morris ac Ifanwy Jones. Enillwyd gwobr y mis, rhoddedig gan Gwenllian Edwards, gan y wraig wadd.

Bydd y cyfarfod nesaf nos Lun, Tachwedd 17eg. Hwn fydd y Cyfarfod Blynyddol.

Eglwys M.C. Brynrefail. Disgwylir y canlynol i wasanaethu yn ystod Suliau Tachwedd:

- 2: Mr John McBride, Porthaethwy (10)
- 9: Mr John H. Hughes, Llanberis (5.30)
- 16: Parchg Gwynfor Williams, Caernarfon (5.30)
- 23: Mr Merfyn Jones, Caernarfon (5.30)
- 30: Parchg John Glyn, Waunfawr (10)

MANTEISIWCH AR EICH OED!

Dros 55?

Dewis o yswiriant yn rhoi gwerth eich arian.

Cartref a Chynnwys
Teithio • Car
Anifail Anwes
Gwasanaeth Torri Lawr

Age Concern (Wales)
Enterprises Limited
Ffordd Santes Helen
Caernarfon

Gwynedd LL55 2YD

01286 678310

AGE Concern

INSURANCE
SERVICES

All our profits
support the work
of Age Concern

CHIROPODIST

Gwasanaeth
yn eich cartref

E. Ll. Parry

M.S.S.Ch., M.B.Ch.A.

57 Glanffynnon
LLANRUG

Ffon:

(01286) 675754

**Gwynedd
Hotel
& Restaurant**

Llanberis 870203

Ar agor trwy'r flwyddyn ar
gyfer priodasau, dathliadau
bedydd, penblwydd a phob
achlysur arbennig arall.
Gallwn drefnu adloniant —
disgo a.y.y.b.
Bwydlen Bar a Restaurant
Cinio Dydd Sul

CLWB PÊL-DROED DEINIOLLEN 1997-98



RAS ANTUR WAUNFAWR 1997

Cynhaliwyd deuddegfed Ras Antur Waunfawr ddydd Sadwrn, Medi 27. Daeth nifer dda o redwyr a chefnogwyr draw i fwynhau'r pnawn. Y gŵr gwadd eleni oedd Eifion Jones (Jonsi) BBC Radio Cymru, a chafodd bnawn prysur iawn yn cyflwyno'r gwobrau a thynnu'r rafflau.

Dyma restr o'r enillwyr: Yn gyntaf ac yn rhedeg y ras 10k am y tro cyntaf roedd Alun Vaughan (Eryri) o Lanberis mewn amser o 35.33; yn ail agos roedd Simon Lund (Wigan Phoenix) mewn amser o 35.56; ac yn drydydd roedd Rhys ab Elwyn (Eryri) mewn amser o 36.10.

Yn gyntaf i rai dros 40 roedd Phil Jones (Eryri) mewn amser o 39.18.

I'r rhai dros 50 Donald Williams (Eryri) oedd yn gyntaf

mewn amser o 39.23; ac i'r rhai dros 60 Eifion Evans (Cybi) mewn amser o 59.38.

Yr unig ferch i fentro y Ras eleni oedd Ellie Dunnington (Eryri) a gwblhaodd y cwrs mewn 47.48.

Enillwyr y Ras Hwyl eleni oedd Joseff Bunton ac, yn sownd wrth ei sodlau, roedd Tomos Hughes ac Osian Elfryn, y ddau o'r Waunfawr.

Enillwyd Cwpan B & K Williams Llanrug eleni gan Ysgol Waunfawr. Roedd bron pob plentyn o adran iau'r Ysgol wedi rhedeg yn y Ras Hwyl a phob un yn derbyn medal a'r cwpan i'w gadw yn yr Ysgol.

Dymuna Antur Waunfawr ddiolch yn fawr i'r cwmnïau lleol am noddi'r tlysau ac i'r holl gefnogwyr ddaeth draw i gefnogi'r rhedwyr.



Enillwyr Ras Antur Waunfawr, o'r chwith i'r dde: yn drydydd Rhys ab Elwyn (173); yn gyntaf Alun Vaughan; yn ail Simon Lund (172)



Tim o weithwyr Antur Waunfawr a gymerodd ran yn y Ras.

FFAIR NADOLIG GYDA
DYDD SUL, 30 TACHWEDD (1 - 5 p.m.)
ER BUDD ADLAN TRAWSBLANNU ARENNAU RUHL

Alwyn a Sarah Jones

RACCA
PENISARWAUN

★ Blodau ar gyfer pob achlysur

hefyd

★ Dewis da o Lysiau Fferm


★ Wyau Free Range
Ar agor saith diwrnod



870605

**LLYSIAU AR
GYFER PICLO**

CROESAIR TACHWEDD



18 i lawr y 5 ar draws, dyna pryd y cofir 8 i lawr drwy danio 2 i lawr yng ngolau a gwres 15 i lawr. A dyna hynny o gliwiau a gewch chi iddyn nhw. Byddwch ofalus!

AR DRAWS

- 1. Talfyriad o gwt Cadi? (8)
- 9. Cwerylon yn ymwneud â esgyrn? (9)
- 10. Mewn car a bws, fe deithia hwn drwy'r anialwch (4)
- 11. Wyth a dau yn achosi drygau (7)
- 12. Gohiriad (6)
- 14. Tai y tollbyrth (7)
- 17. Cicio'r goes o dan y pen-glin wna i Mic grio (7)
- 19. Y Deri Arms, er enghraifft (6)
- 22. Teigr yng ngwaelod y wal giprys (7)
- 23. Ymborth (4)
- 24. Ymbil rhagarweiniol mewn gwasanaeth (9)
- 25. Yr hyn a wneir wrth ddatgan 24 ar draws (5)
- 26. Y mannau uchaf, trethu Ana yn ofnadwy (8)

I LAWR

- 1. Y gog ar y rhiw o flaen y bedol - yr hyn a wna gwraig anffyddlon i'w gŵr (8)
- 3. Dei gwerthwr sy'n gwneud (10)
- 4. Hen un dda, heb ogwydd (7)
- 6. Darn i un yn unig (5)
- 7. Hwyrach, ond nid diweddarach! (6)
- 13. Y Bardd Cwsc (5,5)
- 16. Dianghenraid (8)
- 17. Cyd-ddyfarniad (7)
- 20. Y gymdogaeth yn croesawu Lada yn ôl, un sy'n cynnwys llythyren sy'n dangos ei fod yn newydd sbon (5)
- 21. Bryn Beiblaidd nepell o Nazareth (4)

ATEBION CROESAIR HYDREF



Derbyniwyd atebion cywir i groesair mis Hydref gan Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; Chris Roberts, Llanrug; Enid Jones, Tal-y-sarn; Jean Hughes-Jones, Rhiw; Mrs G. Gill, Bangor; Ellen Pritchard, Garndolbenmaen; Iorwerth a Jean Williams, Caernarfon; Dorothy Jones, Llanrug; Mair Foulkes, Penisarwaun; Rosemary Williams, Tregarth; Mair Evans, Caernarfon; Megan Wyn Jones, Bangor; Ceridwen Williams, Llanrug; E. E. Jones, Rhoshirwaun; Hywel Griffith, Awstralia; N. Hughes, Cwm-y-glo; Mary Davies,

DRAENOG



Gŵr o Gwm-y-glo wedi deall bod yna gwrw i'w gael tua'r Eisteddfod yn y Bala yr haf yma. Pan welodd giw hir yn aros eu tro am ddiod mewn pabell ar y Maes, dyna sefyll yn amyneddgar yn y rhes. Ddeudodd neb wrtho mai ar faes arall roedd y bar, a braidd yn siomedig oedd o pan gyrhaeddodd o flaen y ciw a gweld mai dim ond sudd oren oedd i'w gael ar y Maes. Ai'r baben honno oedd y Babel LEN y soniwyd cymaint amdani?

Waunfawr; Nansi Davies, Rhuthun; Nan Owen, Llanberis ac enillydd y mis hwn, sef Catherine A. Jones, Tŷ Capel Pencaerau, Rhiw, Pwllheli. Llongyfarchiadau a £5 i chi. Mae'r rhagymadrodd yn dweud y cyfan am groesair y mis yma; mwynhewch, a gyrrwch eich atebion i Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun, Caernarfon erbyn dydd Llun, 17 Tachwedd, os gwelwch yn dda.

Dyddiadur y Mis

TACHWEDD

- 4. Mawrth LLANBERIS: Y Gymdeithas Lenyddol am 7 o'r gloch yn Festri Capel Coch.
 - 5. Mercher CWM-Y-GLO: Noson Tân Gwylt am 6 yn 'Y Fricsan'. BETHEL: Noson Tân Gwylt ar iard yr Ysgol.
 - 6. Iau BETHEL: Noson o ddawnsio disgo a gwerin yn y Neuadd am 6 o'r gloch. DINORWIG: Y Gymdeithas Lenyddol o dan ofal Mr J. H. Huws, Llanberis.
 - 8. Sadwrn BETHEL: Yr Eisteddfod am 1 a 6 o'r gloch yn y Neuadd.
 - 10. Llun DEINIOLLEN: Oedfa o dan nawdd y Cyngor Eglwysy yng Nghefnywaun am 7 o'r gloch. Siaradwr: Y Parchg John Owen.
 - 12. Mercher BETHEL: Merched y Wawr. Sgwrs gan Vincen Hughes.
 - 13. Iau CWM-Y-GLO: Cyfarfod Blynnyddol y Ganolfan am 7 o'r gloch yn yr Ysgol Gymuned.
 - 17. Llun BRYNREFAIL: Sefydliad y Merched. Y Cyfarfod Blynnyddol. DEINIOLLEN: Merched y Wawr. Arddangosfa 'Decoupage'.
 - 19. Mercher DINORWIG: Y Gymdeithas gyda'r Parchg Gwyn Erfyl.
 - 20. Iau LLANRUG: Plaid Cymru. Cwis am 7.30.
 - 24. Llun BETHEL: Ffair Lyfrau yn yr ysgol trwy gydol yr wythnos. DEINIOLLEN: Y Gymdeithas gyda Mr E.W. Evans, Deganwy.
 - 28. Gwener CWM-Y-GLO: Ffair Nadolig am 6 o'r gloch.
- Trwy gydol y mis: Arddangosfa — 'Adlais o Hen Ogoniant y Chwareli' gan J. Napier yn Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis.

RHAG-HYSBYSIADAU MIS RHAGFYR

- 3. Mercher LLANRUG: Ffair Nadolig Plaid Cymru yn yr Ysgol Gynradd.
- 5. Gwener DEINIOLLEN: Ffair Nadolig Plaid Cymru yn y Ganolfan am 7 o'r gloch.

RHODDION

- £10: Dr H. G. Williams, Bangor; Derek Williams, Bron Eilian, Dinorwig.
- £5: Mrs Elen Jones, Hafan Elan, Llanrug; Mrs Lily Owen, 4 Cefn Elan, Llanrug; Jean Hughes, 2 Bryn Gro, Cwm-y-glo; Hywel Griffith, Awstralia; Mrs Nancy Morris, Tan-y-coed; Mrs Betty Griffith, Gorffwysfa, Waunfawr; Owen a Buddug, 5 Minafon, Llanberis; Mrs Dwynwen Roberts, Rhianfa, Llanberis; Teulu y ddiweddar Mrs Ceinwen Jones, Cesail y Mynydd, Deiniolen; Joyce a Martin Tong, Pen y Bwlch, Mynydd Llandegai;
- Dylan a Sioned Lewis, 4 Tai Gerddi, Deiniolen; Michael a Karen, Llanberis; Olwen Roberts, Argoed, Stryd Warden, Llanberis.
- £3: Dewi Richards, Bryn Llewelyn, Ffestiniog.
- £2: H. V. Evans, Bron Eryri, Llanberis; Bethan Williams, 15 Hafod Oleu, Deiniolen.
- £1: Christine Roberts, Llanberis.

DIOLCH

Dymuna Joyce a Martin Tong, Pen y Bwlch, Mynydd Llandegai, ddiolch yn fawr i bawb ym mro'r Eco am y llu anrhegion a'r dymuniadau da a gawsant ar achlysur eu priodas yn ddiweddar.



CARPEDI GERAINT OWEN

GWERTHWYR CARPEDI, TEILS CARPED a FEINYL
CANNOEDD O DDEWIS O BATRYMAU A RHAI MEWN STOC
FFONIWCN UNRHYW AMSER:
WAUNFAWR (01286) 650552

R. M. (DIC) PARRY
PEINTIWR AC ADDURNWR
PRISIAU RHESYMOL
TAWELFA, PENISARWAUN
Ffôn: (01286) 870846

CHWARAEON

Y CHWARAEWR PROFFESIYNOL

Yn sicr un o dalentau disgleiriaf yr ardal yn ystod y blynyddoedd diwethaf yma yw Eifion Jones o Lanrug. Bu colofnau'r Eco yn cronicle ei ddatblygiad fel chwaraewr trwy dimau lleol, a thimau -14, -15 a -18 Cymru. Gadawodd Eifion Ysgol Brynrefail y llynedd i ymuno fel chwaraewr YTS gyda thîm Lerpwl. Fel arer mae'r cyfnod yma'n parhau am ddwy flynedd ac yn mae'n rhaid i'r Clwb benderfynu un ai arwyddo'r chwaraewr fel chwaraewr proffesiynol neu ei ryddhau. Yn amlwg mae Eifion wedi gwneud cryn argraff, oherwydd wedi ond ychydig fisoedd yn Lerpwl mae wedi derbyn cytundeb tair blynedd fel chwaraewr proffesiynol i'r Clwb. Llongyfarchiadau calonog iddo ar ei gamp ond mae'n ddigon call i sylwi fod gwaith caled ac ymroddgar o'i flaen. Tybed a yw wedi cyrraedd y lefel yma ar yr adeg iawn, gydag argoelion fod Bobby Gould yn ymddangos yn fwy parod i roi cyfle i'r ebolion ifanc bellach.

Roedd Dic Parri yn hynod falch o drefnu trip o Ysgol Brynrefail i weld Malcolm Allen yn chwarae i Newcastle a Chymru. Gobeithio y bydd yr un galw ymhén amser i weld Eifion yng nghrys coch Lerpwl a Chymru.



HÛN . . . AC YN IACH!

Yn ddiweddar bu un o gewri pêl-droed y gorffennol yn dathlu ei ben-blwydd yn 80 oed. Roedd T. G. Jones — neu Tommy Jones neu

Tommy Tŵr — ym marn llawer yn un o amddiffynwyr gorau'r gêm. Enillodd 17 o gapiau tra gyda Everton — nifer fechan oherwydd cyfnod yr Ail Ryfel Byd. Ef hefyd oedd capten ieuengaf Cymru pan arweinai ei wlad yn erbyn Gogledd Iwerddon ac yntau ond ugain oed. Chwaraeodd Orig Williams i dîm Tommy Tŵr ym Mhwllheli. Mewn sgwrs ddiweddar datgelodd Orig mai Tommy oedd y cyntaf i ddatblygu'r grefft o benio pêl yn ôl i'w gôlgeidwad — peth sydd mor gyffredin heddiw.

Ers sawl blwyddyn bellach bydd Tommy yn nofio yn rheolaidd bob bore ym Mhwll Nofio Bangor. Yn sicr mae'n elwa o hynny gan nad yw ddim trymach heddiw nag ydoedd yn ystod ei gyfnod fel chwaraewr a rheolwr Bangor a Phwllheli. Yn gellweirys soniodd Tommy wrth un o staff y pwll nofio y dylai gael mynediad am ddim yno rŵan oherwydd ei oedran. Trosglwyddwyd yr awgrym gan y staff i swyddogion y Cyngor a rhoddwyd cynigiad o flaen y pwyllgor penodol ac o hyn ymlaen gall unrhyw oedolyn sydd dros 70 oed — nifer cynyddol o flwyddyn i flwyddyn — gael mynediad am ddim i unrhyw ganolfan hamdden yng Ngwynedd.

O gofio yr ystod o weithgareddau a gynigir heddiw mae hyn yn gynnig clodwiw. Mor aml y clywir ein trigolion hyn yn dweud, 'Diolch am y teledu' neu, 'Fydda i byth yn mynd allan'. Dyma gyfle gwych rŵan. Beth sy'n well na phnawn allan o'r tŷ i lawr yng Nghaernarfon, yna cael paned cyn mynd adref. Wel, ia, meddech chi, ond sut mae'r oedolion hyn i gyrraedd Caernarfon; does dim bws, neu beth am gost y bws?

Rwyf am geisio cynnig ateb. Yn nghyfarfod nesaf Cyngor Cymuned Llanddeiniolen, sy'n cynrychioli talp syleddol o fro'r Eco rwyf am gynnig fod y Cyngor fel un o'i 'rhoddion' yn noddi bws unwaith yr wythnos i gludo unrhyw oedolyn sydd am fentro i'r ganolfan hamdden leol. Rwy'n siŵr y gellid trefnu amserlen a manau codi pwrpasol i'r 'bws ffitrwydd'. Os byddai y cynnig yn cael ei dderbyn — a chynnig cyffelyb o gynghorau Llanberis, Llanrug, Waunfawr, Betws Garmon a Chaeathro gallai fod yn gyfraniad gwerthfawr i garfan o'n cymdeithas sy'n haeddu pob cefnogaeth.

FAINT YW EI WERTH?

Ar bnawn Sadwrn rwyf yn cael crwydro gogledd Cymru yn ceisio adlewyrchu campau ar lefel 'leol'. Erbyn hyn gwelais gêmâu ar bob lefel, o Gynghrair Pentec drwodd i Gynghrair Cenedlaethol Cymru. Yr un yw'r patrwm. Talu wrth y giât, prynu rhaglen yna'r tocynnau raffl. (Gyda llaw, llongyfarchiadau i glwb Llanystumdwy am raglen safonol sy'n adlewyrchu timau'r clwb o'r oedran -9 i -17 a'r tîm hŷn.) Cri pob clwb yw 'rhaid codi pres mae hi'n mynd yn job ddud i redeg pêl-droed ar bob lefel'. Mae hyn yn sicr yn wir ac ni allan lai nag edmygu'r criw bach sy'n fodlon gweithio'n wirfoddol i gynnal nifer o'r clybiau hyn. Peth braf, fel chwaraewr, yw cyrraedd erbyn dau o'r gloch a gywybod fod popeth yn barod.

I ble mae'r arian yn mynd? Gwael iawn yw safon meysydd sawl clwb. Mewn nifer o'r meysydd nid oes cawodydd na chyfleusterau ymholchi. A ddylid talu arian i chwaraewr o dan rhyw lefel arbennig? Clywais stori am glwb o Glwyd sy'n talu £50 i'r chwaraewr ar y Sadwrn (swm pitw). Y syndod yw mai yn llythrennol dau ddyn a chi sy'n eu gwyllo. Roeddwn mewn stafell newid un o'r timau Fitlock yn ddiweddar — papur £20 oedd yn cyrraedd dwylo'r chwaraewr.

Yn swyddogol, heddiw, nid oes y fath beth ag 'amatur' a cholled i glybiau lleol oedd colli cwpanau o statws fel y North Wales Amateur a'r Welsh Amateur. Fe erys stori trip Llanberis i chwarae yn erbyn Caerleon yn rhan o chwedloniaeth pêl-droed yr ardal yma. Byddai rhai'n

dadlau na fu erioed y fath beth ag 'amatur'.

Rwy'n cofio, rhyw bymtheg mlynedd yn ôl, roi cyfweiliad i gadeirydd clwb oedd ymysg mawrion y timau amatur y cyfnod. Cefais fy nghyhuddo wedi'r rhaglen o'r ensyniad fod y clwb hwnnw yn talu amaturiaid. Roeddwn yn amlwg wedi taro nerf a diddorol sylwi fod ambell un o'u chwaraewr wedi eu gwahardd am dderbyn arian pan symudwyd i glwb arall. Gallaf ddatgelu rŵan rhai o'r taliadau gefais i fe chwaraewr — efallai i rai o fy nghyfoedion daeru nad oeddwn yn haeddu dim. Yn Llechid, dau beint o mild a steak & kidney pie. Os chwarae yn y Welsh League hefo Bethesda yn y 60au (cynghrair dda) cael £1, fel arfer deg darn deuswllt. Yna Llanberis ganol y 70au 50c 'pres te' a 50c bws o Gaernarfon (a phob dimai yn cael ei gofnodi yn llyfr Arfon). Ond problem fu arian erioed. Cofiaf chwarae yn Nhreffynnon un nos lau wlyb i Fethesda yn yr hen Welsh League. (Gêm olaf Tommy Welsh, yr archsgoriwr, gyda llaw.) Cael y £1 arferol, ac yna'n gweld Cled, trysorydd Bethesda, yn arwyddo sieciau am £8 yr un i'r Sgowsars yn y tîm. Roedd £8 yn dipyn o arian yn 1967! Dyna ddechrau cyfnod pan ddaeth chwaraewr Glannau Mersi a Manceinion yn un haid i'r gogledd. Pwy oedd yn talu orau oedd hi. Tymor ym Methesda efallai, yna pump yn mynd gyda'i gilydd i'r Blaenau y tymor dilynol. Yna ymlaen i glwb arall.

Pam sôn am arian, medde chi?

Wel, wrth gwrs mae'r diwrnod mawr wedi cyrraedd — y 'transfer fee' cyntaf mewn cynghrair 'leol'. Roedd lan Williams yn flaenwr addawol iawn gyda clwb Pwllheli. Roedd clwb Pwllheli yn ofni y byddai'r brawd mawr, Porthmadog, yn cipio lan. Felly dymai roi lan — a saith chwaraewr arall ar gytundeb. (Yng nghynghrair Gwynedd mae Pwllheli gyda llaw.) Yna, mae lan yn sôn ei fod eisieu gwella ei safon a mynd i chwarae i glwb Mountain Rangers yng nghynghrair Pentec — symud i lawr cam! Oherwydd y cytundeb mae'n rhaid talu 'transfer fee'. £80 meddai Pwllheli, £40 meddai'r Rangers. Wedi dadlau cytunwyd ar £50. STori ryfedd ac eto trist onide? Os oes sustem pyramid yn bodoli ym mhêl-droed Cymru, pam mae chwaraewr ieuainc addawl yn fodlon disgyn grîs i chwarae ei bêl-droed. Ai stori ryfeddol yw hon rhyw 'one-off' un ai dyma batrwm y dyfodol? O'n nhystiolaeth i o safon y Pentec, mae'n rhyfeddol bod rhaid talu arian i gael rhywun i chwarae ynddi. Y cwestiwn sylfaenol yw, a ydy talu chwaraewr o reidrwydd yn gwella safon? Amser a ddengys — gyda llaw, rhywun eisieu prynu ticed raffl?

DIM TEILYNGDOD

Yn anffodus ni fydd noson wobrwyo Eco'r Wyddfa yn cael ei chynnal eleni. Diolchaf i'r ddau lythyrwr a anfonodd ataf, ac roedd y rhai a gynigiwyd ganddynt yn llwyr haeddu eu cydnabod. Efallai imi fod yn rhy uchelgeisiol yn cynnig y fath syniad — neu ein bod yn fodlon i adael i'r 'criw bach' i weithio'n galed ar ein rhan heb gydnabyddiaeth!

DYFYNIAD Y MIS . . .



'Byddai'n well gen i sefyll yn fan'ma (cae pêl-droed Deiniolen) yng nghanol y glaw yn hytrach na gwylio Manchester United neu Lerpwl.' — Alun Wyn Evans ar y rhaglen 'Gôl' ar S4C, 19 Hydref.

Diolch am y 'lleiafrif ffyddlon' a wêl ddyfodol ym mhêl-droed ein hardal a'n cenedl.